heddwch

cnd cymru
yr ymgyrch
dros ddiarfogi
niwclear

haf 2011
rhif 54

# Windscale

...cwbl ddiogel, ddwedon nhw

# Harrisburg

...cwbl ddiogel, ddwedon nhw

# Chernobyl

...cwbl ddiogel, ddwedon nhw

# Fukushima

...cwbl ddiogel, ddwedon nhw

# Wylfa, Hinkley, Oldbury...

. . . cwbl ddiogel, medden nhw

# Popeth yn iawn, 'te

## heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru)**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**golygydd:**
Jill Gough

**cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**cynhyrchu a phostio**
Redkite Print
07810 566 919
redkiteprint@thefreeflyer.com

## cysylltiadau cnd cymru

**is-gaderyddion**
Brian Jones
01792 830 330
swanseacnd@btinternet.com

Duncan Rees
07774 268 371
duncan.rees@co-operative.coop

George Crabb
01446 774 452

Ray Davies
029 20 889 514

John Cox
01495 773 495
drjohncox@aol.com

**trysorydd, aelodaeth ac aelodau**
CND Cymru
9,Rhiw Briallu, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE
01970 626 740
michael.freeman9@btinternet.com

**masnachu**
Kate & Del Rhys
coney@gn.apc.uk

**ysgrifenydd cenedlaethol**
Jill Gough,
CND Cymru, Llys Gwyn,
Glynarthen SA44 6PS
heddwch@cndcymru.org

**Nid yw cynnwys heddwch o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau neu gyfraniadau at y golygydd.**



# Clwb yn anwybyddu cysylltiad â Gaddafi

**Arwyddodd mwy na 100 o ymgyrchwyr, dan arweiniad cyn-filwr 48-oed, Jonathan Williams, lythyr agored at Lywydd Clwb Rygbi Trecelyn, Michael Miles, a'r Cadeirydd, Idris McCarthy, yn galw arnynt i ailystyried penderfyniad i dderbyn nawdd i'r clwb gan y cwmi arfau Americanaidd, General Dynamics.**

Mae ffatri General Dynamics yn Oakdale, Gwent yn cynhyrchu a chyflenwi offer cyfathrebu milwrol i lywodraeth Libya, yn sgîl cytundeb gwerth £85 miliwn yn 2008. Roedd yr offer yn helpu i ddarparu rhwydwaith cyfathrebu diogel i luoedd diogelwch Libya cyn iddo, mae'n debyg, gael ei ddinistrio gan luoedd NATO.




Efallai y byddai cefnogwyr lleol Trecelyn wedi eu siomi ac yn cywilyddio i ddysgu fod nawdd General Dynamics, a hysbysebir ar y stadiwm ac ar grysau'r tîm iau, yn hyrwyddo gwasanaethau cwmni sy'n gysylltiedig â marwolaethau dynion, menywod a phlant diniwed.

### Ochr dywyll

Ar ôl cael gwybod am y sefyllfa, ac o fewn dim ond 24 awr, ychwanegwyd mwy na 100 o lofnodion at lythyr Mr Williams gan bobl o bob rhan o Gymru. Roedd llawer o'r rhain, ar ôl yr adroddiadau newyddion am y dinistr a oedd yn cael ei achosi gan yr awdurdodau yn Libya, yn gwaredu i feddwl y gallai clwb gwych fel Trecelyn fod yn derbyn arian gan gwmni a oedd wedi cyflenwi offer i'w gwneud hi'n haws lladd pobl gyffredin. Roedd y rheini a arwyddodd y llythyr, a ofynnai'n barchus i Glwb Trecelyn ailystyried ei gysylltiad â General Dynamics, yn cynnwys academwyr, aritstiaid, gwleidyddion a gweithredwyr gwleidyddol.

### Sgarmes

Dywedodd Jonathan Williams ei fod yn poeni bod y fath gysylltiad yn dwyn 'gwarth ar gymuned Trecelyn ac ar bobl Cymru'.

Dywedodd llefarydd ar ran CND Cymru:
'Rydym yn sefyll ochr yn ochr â phobl gyffredin Libya, ac mae cywilydd arnom fod pobl yma efallai wedi cyfrannu'n ddiarwybod at eu gofid. Dylai Cymru sefyll ac arwain y ffordd tuag at edrych ar wrthdaro a'r byd mewn ffordd wahanol, nid elwa mewn unrhyw fodd ar y 'peiriant rhyfel'.

'Carem drafodaeth lawn ac agored ar oblygiadau'r fath ddatblygiadau yng Nghymru.'

Pan fo offer milwrol yn cael ei werthu i wledydd eraill, does neb fel pe baent yn gofyn 'yn erbyn pwy y caiff hwn ei ddefnyddio?'.

Wrth i ni fynd i'r wasg, ni chafwyd ateb gan y Mri. Miles a McCarthy. Efallai y meddylian nhw'n fwy gofalus am eu noddwyr y tro nesaf.

# Libya: Atal y Bomio

**Mae CND Cymru yn gresynu penderfyniad y llywodraeth Brydeinig i barhau i ymyrryd yn filwrol er mwyn ceisio newid llywodraeth Libya ac mae'n gwrthwynebu'r ymosodiadau cyfredol.** Mae CND Cymru yn cefnogi dulliau diplomatig a gwleidyddol o ddatrys y gwrthdaro a sicrhau canlyniad y penderfynwyd arno gan bobl Libya eu hunain.

Ni ddysgwyd gwersi rhyfeloedd ymyriadol y degawd diwethaf: nid ymyriad milwrol yw'r ateb i alwad gyfiawn pobl Libya am ryddid a democratiaeth.



**Mae 144 o arfau niwclear yn barod i'w tanio ar longau tanfor Trident yn Faslane. Mae un o'r llongau hyn bob amser allan ar y môr yn barod i danio ei thaflegrau.**

# Torrwch Trident nid Swyddi! Toriad i Alw Amdano


**Bydd cynlluniau'r llywodraeth Brydeinig i orfodi toriadau hallt mewn gwasanaethau cyhoeddus yn cosbi'r tlotaf fwyaf, yn dinistrio'r wladwriaeth les ac yn gwaethygu'r argyfwng economaidd. Mae yna ddewis arall. Byddai cael gwared o Trident heb roi dim byd yn ei le yn arbed mwy na £100 biliwn! Wrth iddi dorri gwariant cyhoeddus, mae'r llywodraeth Brydeinig yn hapus i barhau i gynnal ei harfau dinistr torfol hyll am gost (gynyddol) o £2.2 biliwn bob blwyddyn.**

Hyd yn oed yn awr, mae'r llywodraeth Brydeinig yn gwario'n dawel fach ac yn bwriadu gwario biliynau pellach o'n harian ar ddatblygu arfau niwclear wedi eu diweddaru fel olynydd i Trident. Ac eto, mae'n dal i ddweud wrthym na phenderfynir yn derfynol ynglwn â dyfodol Trident tan 2016.

### Camddefnyddio democratiaeth

Ar ddechrau mis Chwefror, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Amddiffyn Liam Fox y *bydd* y llywodraeth glymblaid yn bwrw ymlaen ac yn dechrau'r broses o sicrhau olynydd i Trident heb gymeradwyaeth seneddol, fel 'bod y cwch cyntaf yn barod erbyn 2028'.

Mae 'bwrw ymlaen' yn cloi'r llywodraeth i mewn i gytundeb di-dor gyda chwmi preifat, gan ymrwymo'r gwariant fel na ellir ei dynnu'n ôl, ac mae'n cynrychioli ymrwymiad gwario sydd yn mynd ymhell y tu hwnt i gyfnod yr Arolwg Gwariant Cynhwysfawr presennol. Byddai'n gwneud unrhyw 'benderfyniad' yn sgîl dadl seneddol yn 2016 yn ddim mwy na chymeradwo'r hyn sydd eisoes yn digwydd.




### Aldermaston

Roedd gwario buddsoddi SAA Aldermaston yn 2005 yn £350 miliwn y flwyddyn. Mae'n fwy na £1 biliwn y flwyddyn bellach. Mae'r holl wariant hwn wedi osgoi archwiliad cyhoeddus neu seneddol, tra bod rhaglenni gwariant cyhoeddus yn wynebu archwiliad manwl, bygythiadau a thoriadau. [1]

### Anwybodaeth

Mae ASau Llafur, Democratiaid Rhyddfrydol a Thoriaid yn unfrydol o blaid gwario ffortiwn ar arfau niwclear newydd sy'n ddim ond symbol gwrywdod marwol a pheryglus. Gall arfau niwclear ladd miliynau – biliynau, o bosib – o bobl yn ddi-wahân a dinistrio'r amgylchedd. Fel sarhad terfynol i ddeallusrwydd a dyfeisgarwch dynol, rhaid i'r deall a'r wybodaeth roedd yn rhaid wrthynt er mwyn eu hadeiladu, heb sôn am unrhyw gydymdeithlad a thosturi dynol, gael eu hanghofio pan fydd gwlad yn bygwth eu defnyddio.

### Rhowch wybod iddyn nhw

Wrth edrych am doriadau mewn gwariant cyhoeddus, mae'n amlwg mai rhyfeloedd tramor, paratoi at ryfel ac arfau dinistr torfol ddylai fod ar frig y rhestr. Rhaid cyhoeddi hyn – a phosibiliadau diarfogi niwclear – a'u cyhoeddi'n groch.

Gobeithio yr ewch ati i weithredu – boed trwy sgrifennu llythyron o'ch cadair freichiau neu'ch desg neu fynd allan ar y strydoedd mewn gwrthdystiadau yn erbyn toriadau gwariant cyhoeddus a herio puer â'r gwirionedd.

**Beth bynnag fo'r gost – mae arfau niwclear yn anfoesol ac yn wastraff arian Torrwch Trident, nid swyddi a gwasanaethau cyhoeddus**

[1] Mae gwariant SAA ar raglenni cyfalaf wedi cynyddu o £24m yn 2000/1 – http://tinyurl.com/6b76y3o i £420m yn 2009-10 http://tinyurl.com/6bc8qm5 Cafodd y Cyfleuster Trin Wraniwm Cyfoethocach newydd ganiatâd cynllunio gan Gyngor West Berkshire yn 2010 yn wyneb mwy na 1400 o wrthwynebiadau http://www.nuclearinfo.org/node/2122

## h e d d w e i t h r e d u

**Mae Trident yn arf anllad, costus a dianghenraid – dylid ei ddileu yn llwyr, nid cael rhywbeth yn ei le.**

**1. Sgrifennwch at eich AS**
**(**Tw'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA neu defnyddiwch www.writetothem.com **)**

Defnyddiwch wybodaeth o'r darn uchod:
* Gofynnwch iddynt fynnu arolwg o'r penderfyniad i oedi'r ddadl ar olynydd i Trident – a chynnwys y posibilrwydd o beidio â chael dim o gwbl yn ei le.

*Gofynnwch iddynt arwyddo Cynnig Boreol 909 (Olynydd i Trident) ac EDM 1477 (Cynigion Llongau Tanfor Trident). (Gweler www.cndcymru.org am fwy o wybodaeth.)

**2. Raliau/Cyfarfodydd a Gwrthdystiadau Atal y Toriadau**
Torrwch Trident nid Swyddi! Byddwch yno – taflenni, sticeri a phlacardiau dwyieithog (heb goesau) ar gael. Gofynnwch am gael gwybod am ddigwyddiadau yn eich ardal. Cysylltwch ag CND Cymru neu gweler y wefan.
Byddai cael gwared o arfau niwclear yn arbed mwy na £100 biliwn i'r trethdalwr. Byddai buddsoddi mewn datblygu cynhyrchu ynni o'r llanw neu'r tonnau a mathau eraill o ynni cynaliadwy yn darparu gwaith amgen ar gyfer gweithwyr amddiffyn ac yn creu degau o filoedd o swyddi newydd. Byddai swyddi amgylcheddol gynaliadwy yn helpu i gyflawni'r targedau gollwng carbon ac ymrwymiad y TUC i greu miliwn o swyddi hinsawdd.

**3. Casglwch enwau ar Ddeiseb CND Prydeinig:**
**'Dim Olynydd i Trident – Ie i Gytundeb Arfau Niwclear'** y gellir ei lawrlwytho o www.cnduk.org

**4. Taflenni 'Torrwch Trident' CND Cymru –**
i'w dosbarthu neu eu gadael mewn llyfrgelloedd, ysbytai, meddygfeydd a mannau cyhoeddus eraill – lawrlwythwch o www.cndcymru.org
neu gysylltu â ni am gopïau.

**5. Sticeri** i'w gwisgo fel bathodynnau ar wrthdystiadau, eu glynu ar amlenni ac ati, ar gael am 50c y ddalen a/neu gyfraniad. Cysylltwch ag CND Cymru.

# Troi Cymeradwyaeth yn Gefnogaeth

**Ym mis Tachwedd 1984, roedd Helen Woodson, ynghyd â Larry Cloud-Morgan, y Tad Carl Kabat OMI a'r Tad Paul Kabat OMI yn rhan o weithred Silo Pruning Hooks yn yr UD, ar safle seilo taflegrau niwclear ym Missouri. Roedd grwp y 'Silo Pruning Hooks' yn dilyn gorchymyn Eseia yn y Beibl i droi 'cleddyfau'n geibiau a gwaywffyn yn grymanau'. Cawsant oll eu hanfon i'r carchar, lle mae Helen wedi bod byth oddi ar hynny.**

Ar ôl 27 mlynedd, mae'n edrych ymlaen at gael ei dyddiad rhyddhau ym mis Medi A hithau bellach yn 67 oed, ac yn wael ei hiechyd, mae wedi penderfynu ymwrthod â gweithgareddau a allai arwain at gael ei charcharu eto.

Mae miloedd lawer o bobl ym mhedwar ban wedi cael eu restio am anufudd-dod sifil gwrth-niwclear, ac mae cannoedd wedi treulio amser yn y carchnar o'r herwydd. Does neb (ddim hyd yn oed datgelydd cyfrinachau niwclear Israel, Mordechai Vanunu) wedi treulio mwy o amser yn y carchar na Helen Woodson.

Bydd yn gadael y carchar heb geiniog goch. Mae ei ffrindiau'n codi arian ar ei rhan, ac maent wedi gofyn i ni gyfrannu at ddarparu'r gefnogaeth sydd arni ei hangen.



**heddweithredu**

Dylid gwneud sieciau ac ati yn daladwy i 'The Nuclear Resister' (sgrifennwch 'for Helen' ar y cefn) a'u hanfon at: The Nuclear Resister, PO Box 43383, Tucson, AZ 85733, UDA. Gellir cyfrannu ar-lein yn www.nukeresister.org (ar y sgrîn derfynol, cliciwch 'add special instructions to the seller' a nodwch mai cyfraniad i Helen yw hwn).

## Fel yn Aldermaston, felly yn Albuquerque

**Mae'n debyg fod ein darllenwyr yn sylweddoli fod y Cytundeb Atal Profion Cynhwysfawr (1996) yn golygu busnes fel arfer gyda phrofion arfau niwclear.**

Dydy profion niwclear heddiw ddim yn creu cwmwl madarch fel yn nyddiau profion atmosfferig, na'r gyflafan seismig a ddynodai brofion tanddaearol yn yr hen ddyddiau. Mae profion arfau heddiw yn golygu peledu samplau bychain o blwtoniwm â phelydrau-X ynni-uchel.

Mae datganiad i'r wasg ynglwn â phrawf ym mis Mawrth 2011 yn labordy Sandia yn Albuquerque, UDA, yn egluro fod: 'pwysedd magnetig neu ymbelydredd tan reolaeth yn creu amodau tebyg ar raddfa fach i'r rheini a achosir gan ffrwydro arfau niwclear; dyna pam y defnyddiwyd pwer pwlsar, o'i ddyddiau cynharaf, i astudio effeithiau arfau.'

Dyna un ffordd y mae llywodraeth yr UD yn cynnal ac yn diweddaru ei harfogaeth niwclear. Mae gwaith diweddaru a phrofion yn digwydd yn awr mewn labordai arfau yn cynnwys Sandia, Los Alamos a Lawrence Livermore ar hyn o bryd, er mwyn moderneiddio arfogaeth niwclear yr UD.

Yn y cyfamser, yn Lloegr, mae SAAau Aldermaston a Burghfield yn ymgymryd â rhaglen adeiladu anferth er mwyn paratoi ar gyfer dylunio, profi a chynhyrchu cenhedlaeth newydd o ergydion taflegrau niwclear Prydeinig. Mae'r rhain yn cynnwys y laser 'Orion' newydd, a chanolfan Gemini, sef uwchgyfrifiadur anferthol ar gyfer dylunio ergydion newydd, a chyfleusterau ar gyfer cynhyrchu uwch-ffrwydron a chydosod ergydion. Mae 1,500 o staff newydd wedi cael eu recriwtio, yn cynnwys peirianwyr taflegrau arbenigol. Arfaethir codi adeiladau newydd, yn cynnwys Cyfleuster Cyfoethogi Wraniwm newydd, o dan Gynllun Strategol Datblygu'r Safle. Mae'r llywodraeth yn dal i hawlio nad yw wedi penderfynu yn derfynol eto p'run ai i brynu system daflegrau newydd i gymryd lle'r un gyfredol.

Mae'r gwaith adeiladu yn Aldermaston yn ddim ond un o'r rhesymau pam y mae llawer o bobl yn credu fod y penderfyniad hwn eisoes wedi cael ei wneud.

## Hiroshima a Nagasaki – Byth Eto

**Mae ymgyrch Gensuikyo Japan yn erbyn arfau niwclear wedi lansio deiseb newydd i gefnogi'r 'Apêl am Waharddiad Llwyr ar Arfau Niwclear'.**

Yn seiliedig ar ganlyniad Cynhadledd Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY) 2010, mae'n galw ar bob gwlad i ddechrau negydu cytundeb i wahardd pob arf niwclear.

Mae Ban Ki Moon wedi datgan ei gefnogaeth i fenter Gensuikyo, gan ddweud: 'Gobeithio yr ychwanega pobl ym mhob man eu lleisiau at y côr cynyddol sy'n galw am ddechrau negydu. Ryw ddydd, fe waredwn y byd o arfau niwclear. A phan wnawn, bydd hynny oherwydd pobl fel chi.'

Ym mis Hydref 2008, cynigodd Ban Ki Moon gynnig pum-pwynt ar ddiarfogi niwclear, a oedd yn cynnig ffordd ymarferol o fynd ati i ddileu arfau niwclear, yn cynnwys cefnogi'r syniad o gytundeb ar arfau niwclear. Yn 2010, pleidleisiodd mwyafrif (133) o holl aelodau'r CU, yn cynnwys China, India a Pakistan, a hyd yn oed Gogledd Korea, o blaid cynnig gan Malaya yn annog dechrau negydu am ddiarfogi niwclear.

**heddweithredu**

Ychwanegwch eich llais, arwyddwch y ddeiseb www.antiatom.org/sig-press Ddim ar-lein? Cysylltwch ag CND Cymru (t. 14) gyda'ch enw a'ch cyfeiriad i gael copi papur.

## Romania ac Amddiffyn Taflegrau

**Mae Arlywydd Rwsia, Dmitry Medvedev, wedi rhybuddio fod Amddiffyn Taflegrau yr UD yn bygwth dod ag amodau'r Rhyfel Oer yn ôl i gyfandir Ewrop ac i gysylliadau rhwng yr UD a Rwsia, ac nad yw wedi derbyn unrhyw warant foddhaol nad yw'r darian amddiffynnol o daflegrau wedi ei hanelu at Rwsia.**

Yn wreiddiol, gwnaeth yr Arlywydd Obama 'ailosod' cysylltiadau â Rwsia yn brif nod ei lywodraeth. Er mawr foddhad i Fosgo, ac yn sgîl protestiadau llwyddiannus gan bobl yng Ngwlad Pwyl a'r Weriniaeth Siec, 'dileodd' Obama gynllun Bush ar gyfer amddiffyn â thaflegrau, a oedd yn cynnwys lleoli systemau taflegrau a radar soffistigedig ar dir canolbarth Ewrop. Y gwanwyn yma, heb ddadl na thrafodaeth yn y senedd, cyhoeddodd Arlywydd Romania y byddai canolfan Amddiffyn Taflegrau Americanaidd yn cael sefydlu yn Romania. Disgwylir iddi ddechrau gweithredu yn 2015, a bydd rhwng 200 a 500 o filwyr yr UD wedi eu lleoli yno.

## Calonnau Glew

**Yn sgîl canlyniad etholiadau'r Alban, cafodd deg o weithredwyr Trident Ploughshares a Gwersyll Heddwch Faslane yn yr Alban eu restio am gynnal cyd-warchae ar Faslane, gan gau'r ganolfan llongau-tanfor Trident am ddwy awr. Galwodd y gweithredwyr ar lywodraeth SNP wrth-Trident yr Alban i gyflawni ei hymrwymiadau a mynnu diarfogi Trident yn ddiymdroi, a gwahardd byd-eang ar arfau niwclear.** ▸




◀ Dywedodd un o'r blocedwyr, Janet Fenton: 'Nid yw ein gweithredoedd yma yn anghyfreithlon, maent yn cefnogi llywodraeth newydd yr Alban. Unwaith eto, mae pobl yr Alban wedi pleidleisio'n ysgubol yn erbyn arfau niwclear. Y tro yma, cafwyd mwyafrif seneddol clir i blaid a addawodd yn ei maniffesto i ddwyn pwysau ar lywodraeth San Steffan i symud yr arfau anghyfreithlon hyn o'r Alban. Rydym yn galw ar yr SNP, plaid sydd wedi cefnogi'n gweithredoedd yn y gorffennol, i weithredu ar fyrder.'

Mae'n ddyletswydd ar yr Alban, ac mae ganddi'r hawl o dan amodau Deddf yr Alban, i wrthod ymwneud â meddiannu arfau Trident. Mae bod ag arfau ynddo'i hun yn fygythiad i'w defnyddio, a byddai eu defnyddio yn lladd cannoedd o filoedd o sifiliaid yn ddiwahân ac yn achosi cyflafan amgylcheddol a fyddai'n para am filoedd o flynyddoedd sydd, wrth gwrs, yn anghyfreithlon, yn anfoesol ac yn annemocrataidd.

Mae CND Cymru wedi sgrifennu at Alex Salmond i'w longyfarch ar y cyhoeddiad y bydd ei lywodraeth yn cyflwyno cynnig ffurfiol yn Holyrood yn mynnu fod llywodraeth San Steffan yn symud Trident o'r Alban a bydd yn 'galw'n ddiamwys am i Trident gael ei ddileu'.

## Aberporth: cofeb i wastraff

**Yn y cyfamser mae Parc Aberporth (y cyfeiriwyd ati'n frydfrydig gan ACau o bob lliw gwleidyddol fel 'Canolfan Ragoriaeth UAV') yn edrych yn fwyfwy di-raen wrth i laswellt dyfu rhwng y cerrig palmant o gwmpas yr unedau diwydiannol. Wedi i'r cwmni UAV o'r Eidal, Selex Galileo, dynnu allan yn y gwanwyn, dim ond Qinetiq sydd ar ôl, wrthi'n datblygu'r drôn 'Watchkeeper' a ddyluniwyd yn Israel ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn at ddefnydd yn Afghanistan a gwledydd eraill.**

Dim ond un o'r unedau a adeiladwyd gan arian trethdalwyr yn 2002 sydd yn cael ei ddefnyddio'n llawn-amser bellach – chafodd nifer mo'u defnyddio *erioed*. Mae'r Cynulliad yn awr wedi cynnig gosod yr unedau busnes eraill i'w rhentu gan unrhyw un. Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc yn y cylch yn dal yn uchel. Gwariwyd o leiaf £21 miliwn o'n harian ar brojlect 'mawr ei fri' Parc Aberporth, gyda'r nod wreiddiol o ddenu cwmnïau awyrofod i orllewin Cymru.

Cafodd digwyddiad hyrwyddo, 'Pause 11', y gwahoddwyd mwy na 100 o gwmnïau arfau iddo ei atal oherwydd diffyg diddordeb neu, chwedl y Prif Weinidog Carwyn Jones, 'y dirywiad economaidd'.

**heddweithredu**
**ymunwch â'r ymgyrch: www.bepj.org.uk**


## Streic Newyn Ynys Jeju

**Ar Ynys Jeju, De Korea, mae gwrthwynebydd lleol i ganolfan lynges Korea/UD newydd a garcharwyd, yr Athro Yang Yoon-Mo, wedi bod ar streic newyn ers y 6ed o Ebrill pan gafodd ef a thrigolion eraill pentref Gangjeong eu restio am weithredu'n uniongyrchol i atal y datblygiad hwn.**

Mae Yang wedi datgan ei fod yn fodlon ymprydio hyd at farwolaeth oni roddir y gorau i'r cynlluniau. Cymerwyd un brotestwraig, Sung-Hee Choi, i'r ddalfa ym mis Mai am arddangos baner yn dweud 'Peidiwch â chyffwrdd â'r un garreg na'r un blodyn'. Mae hi wedi ymuno â Yang ar streic newyn.

Yn yr Unol Daleithau, mae Bruce Gagnon o'r Rhwydwaith Byd-eang yn erbyn Pwer ac Arfau Niwclear yn y Gofod, wedi cychwyn ympryd ryngwladol i gefnogi'r Athro Yang a mudiad Korea yn erbyn y canolfannau milwrol.

**Am y diweddaraf a chysylltau, gweler blog ardderchog Bruce: space4peace.blogspot.com**



## Pererindod Epynt

**Bydd Cymdeithas y Cymod yn mynd ar bererindod i Fynydd Epynt i goffáu'r sifiliaid a laddwyd gan awyrennau di-beilot, neu 'ddronau', ar y 25ain o Fehefin.**

Ar ôl gwasanaeth yn adfeilion Capel y Babell, bydd y bererindod yn ymweld â ffug-bentref 'Cilieni', a adeiladwyd gan y fyddin er mwyn dysgu i filwyr sut i 'glirio' tai ac ymarfer hynny. Caiff y sifiliaid a laddwyd gan gyrchoedd dronau eu coffáu trwy sgrifennu eu henwau ar 'gerrig beddi' yn y ffug-fynwent.
Mewn ymgais i hybu budsoddi mewn datblygu dronau milwrol a sifil, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) yn caniatáu profion dronau yn yr awyrofod rhwng Epynt ac Aberporth ar Fae Ceredigion. Dydy'r CAA ddim wedi rhoi caniatâd hyd yma, er gwaethaf 'ymgynghoriad' cyhoeddus yn 2009.
Trwy gyfrwng technoleg cyfathrebu lloeren, rheolir y dronau a ddefnyddir yn Afghanistan a Libya filoedd o filltitoedd i ffwrdd yn Nevada, UDA.

**heddweithredu**
t: 01286 830 913
e: cymdeithasycymod@btinternet.com
y we: www.cymdeithasycymod.org.uk
Cwrdd am 2pm, Shoemakers Arms, Pentrebach, Pontsenni

## Y Brifysgol Agored

**Feiddiech chi ddim dyfeisio'r fath stori. Mae'r Brifysgol Agored, aelod o gonsortiwm Metrix ynghyd ag amryw o gwmnïau arfau, a oedd wedi gobeithio rhedeg Coleg Milwrol £14 biliwn arfaethedig Sain Tathan (cyn iddo gael ei ohirio y llynedd) yn awr yn hyrwyddo cwrs 'Cymru Gyfoes'.**

Mae angen yr incwm arnyn nhw wedi methiant y fenter godi-arian filwrol fawr roedden nhw'n dibynnu arni.
'Gwych' meddech chi, 'ac am syniad da'. Mae'r cwrs yn trafod pynciau fel 'Sut mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi Trawsnewid Democratiaeth yng Nghymru' ('dim rhyw lawer' yw'r ateb cywir – cyflwynwyd y cynlluniau ar gyfer coleg milwrol Sain Tathan i bobl Cymru heb gyfle i gynnal unrhyw drafodaeth gyhoeddus).
Yr hyn sy'n hysbysebu'r cwrs 'Cymru Gyfoes' yw ffotograff (ar y dde/chwith/isod/uchod) o faner CND Cymru mewn gwrthdystiad yn erbyn y Brifysgol Agored a'i hymwneud â'r consortiwm arfau!

**heddweithredu**
Os oes gennych ddiddordeb yn y cwrs 'Cymru Gyfoes' (mae'n edrych yn ddigon diddorol) neu unrhyw un o gyrsiau Prifysgol Agored Cymru:
**t: 0292047 1170**
**www.openuniversity.co.uk/courseswales**

# Barn Dau o'r Dde

**Mae Plaid Geidwadol Cymru yn y broses o ddewis arweinydd newydd, a dyma dybio y byddai gan ddarllenwyr *Heddwch* ddiddordeb mewn clywed barn y ddau ymgeisydd am dri o'r pynciau sydd wedi bod yn rhan o'n hymgyrchoedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.**

**Cwestiwn 1: A oeddech chi'n cefnogi troi Sain Tathan yn ganolfan ragoriaeth a fyddai'n hyfforddi lluoedd milwrol o wledydd â record wael ar hawliau dynol, ac a ydych yn cytuno fod yr hyrwyddiad wedi bod yn 'draed moch' ac yn wastraff arian cyhoeddus?**

**Andrew R T Davies**: 'Rwy'n llwyr gymeradwo a chefnogi unrhyw ddatblygiad a all wella gallu amddiffynnol a dyngarol y wlad. Gan fod Sain Tathan yn fy etholaeth ranbarthol, dwi cyfranogi'n llawn yn yr ymgyrch i sicrhau'r cyfleoedd hyn i'r ardal. Dwi'n gwrthod yn llwyr yr honiadau y byddai'r safle'n cael ei ddefnyddio i hyfforddi lluoedd milwrol o wledydd â record o droseddu yn erbyn hawliau dynol.

'Dylid nodi fod cynigion y llywodraeth Lafur flaenorol yn ben-agored o ran oblygiadau cost, ac mae i'w resynu yn fawr fod eu methiant i fynd i'r afael â hynny wedi arwain yn y pen draw at ddileu'r cynnig gwreiddiol.'

**Nick Ramsay**: 'Byddai Sain Tathan wedi cynnig hyfforddiant arbenigol mewn peirianneg, cyfathrebu a systemau gwybodaeth i holl luoedd arfog y DU mewn un lleoliad ar safle newydd. Mae'n anffodus i'r llywodraeth Lafur flaenorol fethu llunio cynnig fforddiadwy, masnachol gadarn o fewn y terfyn amser angenrheidiol.'

*Sylwadau Heddwch: Roedd y cynnig ar gyfer Academi Amddiffyn Sain Tathan yn hysbysebu'n benodol y bwriad o hyfforddi lluoedd milwrol gwledydd eraill, ond ni chyfeiriai at unrhyw fesurau diogelwch i wahardd llywodraethau gormesol (fel Bahrain a Saudi Arabia) rhag derbyn y fath hyfforddiant.*

*Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cadarnhau fod Prydain yn rhedeg cyrsiau rheolaidd ar gyfer gwarchodlu cenedlaethol Saudi Arabia mewn 'hyfforddiant arfau, crefft maes a sgiliau milwrol cyffredinol, yn ogystal ag ymdrin â digwyddiadau, difa bomiau, chwilio, trefn gyhoeddus a hyfforddi saethwyr'. Gweler 'UK training Saudi forces used to crush Arab spring'. http://www.guardian.co.uk/world/2011/may/28/uk-training-saudi-troops*





**Uwchben:** Nick Ramsey
**Chwith:** Andrew R T Davies

*Cwestiwn 2: A ydych yn cefnogi rhoi arian cyhoeddus i Barc Aberporth i dalu am gyfleusterau i wneud profion Cerbydau Awyrol Di-beilot (UAVau) ar ran llywodraethau sy'n fodlon eu defnyddio yn erbyn sifiliaid diamddiffyn?*

**Nick Ramsay**: 'Defnyddir cerbydau awyrol di-beilot i nifer cynyddol o ddibenion sifil, fel monitro trychinebau/argyfyngau, rheolaeth cnydau, rheolaeth traffig, ac ymchwil amgylcheddol. Dwi'n croesawu'r buddsoddiad gan y Weinyddiaerh Amddiffyn a'r cyfleoedd a gynigir ganddo.'

**Andrew R T Davies:** 'Byddwn yn cefnogi unrhyw fuddsoddiad sy'n ehangu bri Cymru fel canolfan ragoriaeth ym maes uwch dechnoleg amddiffyn. Mae'n rhaid wrth drwydded allforio i allu allforio technoleg o'r math hwn, ac rwyf yn gyfan gwbl o blaid cyfyngiadau ac, yn wir, monitro unrhyw geisiadau am drwyddedau i allforio'r dechnoleg hon yn llym. Byddwn bob amser yn brwydro i sicrhau fod UAVau'n cael eu defnyddio i gynyddu galluoedd amddiffyn yn unig – sef eu pwrpas gwreiddiol.'

*Sylwadau Heddwch: Mewn gwirionedd, mae'r datblygiad a gyllidwyd gan y cyhoedd ym Mharc Aberporth yn cael ei ddefnyddio i helpu i ddatblygu a phrofi UAVau Israelaidd a ddyluniwyd ar gyfer y WA.*

**Cwestiwn 3: A fyddech yn cefnogi creu Academi Heddwch amhleidiol i Gymru a allai, ymhlith gweithgareddau eraill, werthuso'n annibynnol werth a phwrpas unrhyw brojectau newydd â chysylltiadau milwrol?**

**Andrew R T Davies**: 'Edrychais ar y mater hwn yn bur fanwl fel rhan o'm swydd ar Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad yn ystod y 3ydd Cynulliad. Mae'r dystiolaeth o blaid sefydlu'r fath Academi Heddwch yma yng Nghymru yn dal i ymffurfio, ac yn sicr, byddai gennyf feddwl agored am y cynnig os gellir profi ei ymarferoldeb.'

**Nick Ramsay**: 'Rwy'n cefnogi sefydlu Academi Heddwch amhleidiol i Gymru, gyda chyllid preifat.'

*Sylwadau Heddwch: Disgwylir penderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaetho mewn ymateb i'r ddeiseb, a gefnogwyd gan CND Cymru, yn galw am greu Academi Heddwch i Gymru.*

**Bydd *Heddwch* yn holi'r ymgeisyddion ar gyfer arweinyddiaeth Plaid Cymru yn y dyfodol**


## CYFRYNGAU GWRTHRYFELGAR

**Y Cyfryngau, Gweithredu a Newid Cymdeithasol**

**8-9 Hydref 2011, Canol Llundain**

*Siaradwyr gwadd yn cynnwys:*

* **Michael Albert** (ZNet);
* **John Pilger** (The War You Don't See);
* **Jessica Azulay** (New Standard News);
* **Robert McChesney** (Our Media, Not Theirs);

Yn rhwystredig gyda sylw'r cyfryngau prif-ffrwd i ryfel, newid hinsawdd a'r economi, neu eisoes yn creu'ch cyfryngau eich hun? Diddordeb mewn dysgu sgiliau newydd neu wybod mwy am brojectau cyfryngau radicalaidd o bedwar ban? Am ymuno â'r gwrthwynebiad i reolaeth gorfforaethol ar y rhyngrwyd neu drafod sut y gellir harneisio'r chwyldro digidol i gefnogi newid cymdeithasol radicalaidd? Dewch i Gynhadledd y Cyfryngau Radicalaidd!

**Fe'i trefnir gan Peace News, Ceasefire, Red Pepper, Undercurrents, a visionOntv, gyda chefnogaeth y New Internationalist a Quaker Peace and Social Witness.**

Gellir prynu tocynnau ar-lein trwy wefan : www.radicalmediaconference.org


**'Radiating Posters'** - adolygiad tud.15



# Pŵer Gweithredu Di-drais

**Ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, ar y 5ed o Fedi 1981, cyrhaeddodd grwp o 40 o gerddwyr o Gaerdydd – menywod, yn bennaf – Gomin Greenham. Roedden nhw'n protestio yn erbyn penderfyniad NATO ar y 12fed o Ragfyr 1979 i leoli 196 o daflegrau Cruise niwclear yr UD yn RAF Greenham (a oedd hefyd yn ganolfan i awyrlu'r UD).**

Sefydlodd y cerddwyr Wersyll Heddwch y Menywod y tu allan i brif glwyd RAF (USAF) Greenham Common. Esgorodd y weithred ysbrydoledig hon ar brotest faith a enillodd sylw rhyngwladol. Bu menywod yn byw yn y gwersyll heddwch yn ddi-dor am 19 o flynyddoedd, tan 2000.

**Brwydrau'r Comin**

Yn ystod blynyddoedd y brotest, bu'r awdurdodau, lleol a chanolog ynghyd â'r heddlu, yn gwrthwynebu meddiant y menywod o'r Comin. Achosodd effaith y gweithredu uniongyrchol di-drais wrthdaro â'r gyfraith. Wedi i flynyddoedd lawer o droi allan ac erledigaeth i geisio gorfodi'r menywod oddi ar y tir fethu, ceisiwyd eu symud trwy'r gyfundrefn bleidleisio.

Dygwyd achos llys gan grwp lleol a fynnai nad oedd byw ar Gomin Greenham yn gyfystyr â bod â phreswylfa yno ac felly nad oedd y menywod yn gymwys i'w cynnwys ar y gofrestr etholiadol. Ym 1985, derbyniodd Meistr y Rholiau, yn yr Uchel Lys yn Llundain, fod y ffaith fod y llysoedd yn derbyn y cyfeiriad fel un dilys ar gyfer anfon gohebiaeth, a bod deiliadaeth y menywod wedi bod yn barhaol cyhyd yn gwneud pob un ohonynt yn gymwys i gael ei chynnwys ar y gofrestr etholiadol.

Tra'r oedd hyn y digwydd, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn nifer o is-ddeddfau newydd yn cyfeirio at RAF Greenham Common, a'u gweithredu. Byddai menywod a oedd o fewn yr ardal warchodedig yn cael eu restio, eu cyhuddo, eu gwysio i'r llys a'u dirwyo. Byddai methu talu yn golygu cyfnod o garchar. Apeliodd dwy o fenywod y gwersyll, Jean Hutchinson a Georgina Smith, yn erbyn eu dedfrydau. Parhaodd yr achos am bedair blynedd, gan fynd trwy bob haen o'r gyfundrefn gyfreithiol yr holl ffordd i Dw'r Arglwyddi. Ym mis Gorffennaf 1990, ymddangosodd y ddwy ger bron pump o Arglwyddi'r Gyfraith a ganiataodd eu hapêl, gan ddyfarnu for y Gweinidog wedi mynd y tu hwnt i'w bwerau wrth lunio'r is-ddeddfau mewn modd a fyddai'n atal mynediad i dir comin.

Roedd y ddau achos hyn yn ddatblygiad pwysig o ran ymateb yr awdurdodau a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Trwy sefydlu bod ein cyfeiriad yn un parhaol, gallasom aros ar y Comin nes i'r taflegrau gael eu symud ac i'r tir gael ei roi nôl i'r bobl.

**Newid meddyliau**

Roedd dedfryd Tw'r Arglwyddi yn hollbwysig i'r broses o symud y taflegrau Cruise o Greenham ym 1992 a dychwelyd y tir i'r bobl yn 2000. Wrth edrych yn ôl ar y digwyddiadau hyn, mae cysylltiad clir rhwng y penderfyniad, gan fenywod, i ymyrryd â gwleidyddiaeth niwclear y Rhyfel Oer rhwng yr Undeb Sofietaidd a'r Unol Daleithau. Daeth pwer gweithredu di-drais, a amlygwyd gan brotest y menywod, â goleuedigaeth a achosodd newid meddwl. Mae llinell gyntaf y rhaglith i'r Cytundeb Lluoedd Niwclear Pellter-Canolradd a gafodd wared o daflegrau niwclear Cruise, Pershing ac SS20 ym 1987 yn datgan: 'Yn ymwybodol y byddai gan ryfel niwclear ganlyniadau trychinebus i'r holl ddynolryw . . .'.

Bu herio'r is-ddeddfau yn gyfrwng datgelu'r defnydd anghyfreithlon o'r tir i ddibenion milwrol, a daeth â theyrnasiad 60-mlynedd y Weinyddiaeth Amddiffyn ar Gomin Greenham i ben. Ar yr 8fed o Ebrill 2000, daeth y ffensys i lawr ac agorwyd 1,200 o erwau i'r cyhoedd.

Heddiw, Comin Greenham yw'r rhostir mwyaf sydd ar ôl yn Berkshire. Mae'n cynnal, ymhlith rhywogaethau eraill, y troellwr mawr ac ehedydd y coed ac mae merlod Exmoor a gwartheg yn gallu pori'n rhydd unwaith eto ar y rhostir, nid nepell o hen seilos gwag y taflegrau niwclear. Cafodd y tir lle safai Gwersyll Heddwch y menywod ei drawsnewid yn Ardd Heddwch Greenham gyda cherfluniau, planhigion a blodau. Mae arwydd ar y safle yn nodi hanes y brotest. Mae'r hen, hen gomin hwn, sy'n dyddio o'r 12fed ganrif, bellach o dan nawdd a gofal Ymddiriedolaeth Gymuned Comin Greenham Cyfyngedig.

**Sarah Hipperson**
Cydgysylltydd Gardd Heddwch Greenham

**heddweithredu**

Gyda'r atgof byr yma, daw gwahoddiad i bobl ymweld â'r lle arbennig hwn, lle'r achosodd pwer gweithredu di-drais newid parhaol. Byddwn yn cwrdd yng Ngardd Heddwch Greenham am 1pm ar y 3ydd o Fedi 2011. Am fanylion pellach, cysyllter â:

Jean Hutchinson, 1 Coronation Road, Brynaman, Rhydaman SA18 1BB
t: 01269 824 248

Sarah Hipperson, 15 Sydney Road, Wanstead, Llundain E11 2JW
t: 0208 989 4819
e: sarah.hipperson@virgin.net



# 25 Mlynedd o Alldafliad Ymbelydrol

**Rhoddodd yr arswyd a ddatblygodd yn Fukushima derfyn ar ein gobeithion na chaem eto weld trychineb niwclear arall, gyda'i holl ddioddefaint cysylltiedig. Wrth gofio 1986 a thrychineb araf, estynedig Chernobyl a'i dioddefwyr, yr ymgyrchu a'r gwaith dyngarol, ym mis Ebrill eleni dyma ni'n ategu ein hymgyrch ac yn galw ar yr holl bleidiau gwleidyddol sy'n poeni am Gymru ac ar y Cynulliad Cenedlaethol i helpu i sicrhau Cymru wirioneddol ddi-niwclear. Galwodd CND Cymru o'r newydd hefyd am atal cynlluniau i adeiladu unrhyw orsafoedd pwer niwclear newydd ac i ddadgomisiynu'r rheini sy'n parhau i weithredu.**

**Mewn digwyddiadau ledled Cymru, galwodd grwpiau ymgyrchu sylw at bawb yr effeithiwyd arnynt gan ymbelydredd o'r trychinebau hyn, a myfyrio ar ymrwymiad ymddangosiadol llywodraethau San Steffan a Chaerdydd i fwrw ymlaen i adeiladu gorsafoedd pwer niwclear newydd.**

**Fel y dywedodd Ysgrifennydd Cenedlethol CND Cymru, Jill Gough:** Mae'n bryd i ni fodau dynol ddysgu'n gwers. Mae pwer niwclear yn fenter rhy beryglus. Mae dewisiadau amgen ar gael. Dylem gychwyn drwy feddwl yn ddwys am y ffaith ein bod yn gaeth i'r syniad o 'dwf economaidd' a chofio fod terfyn ar adnoddau'r ddaear.

Ni fyddai peryglon cynhenid pwer niwclear yn dderbyniol o dan unrhyw gyfundrefn iechyd a diogelwch. Dydy cwmnïau yswiriant ddim yn fodlon yswirio gorsafoedd pwer niwclear yn erbyn damweiniau a chaiff llawer o gostau anferth iawndal – a dadgomisiynu – eu gwarantu gan y trethdalwr.



photo:wendy lewis

### Cardiff

Wrth i CND Cymru a'r Côr Cochion goffáu 25 mlwyddiant trychineb niwclear Chernobyl ar y strydoedd a chasglu at gronfa Project Plant Chernobyl, dywedodd Is-gadeirydd CND Cymru, Ray Davies: 'Tra bod ymgyrchu yn erbyn y brîd newydd o systemau taflegrau Trident a'r rhyfeloedd disynnwyr yn Libya ac Afghanistan yn uchel ar agenda CND Cymru, wrth reswm, ni ddylem byth anghofio dioddefaint plant Chernobyl, dioddefwyr diniwed effeithiau pwer niwclear.'

### Gwylnosau yn Wrecsam a Llandrindod

Sgrifennodd ysgrifennydd cynorthwyol CND Llandrindod, Heather Speake, at y *Brecon and Radnor Express*: 'Cymaint i'w adrodd am effeithiau alldafliad niwclear, cymaint i bryderu amdano wrth i ni gofio trychineb Fukishima sy'n dal i fynd rhagddi yn Japan




er gwaethaf eu galluoedd technolegol o'r radd flaenaf; yr holl wastraff niwclear na chafwyd manylion amdano, heb anghofio fod yna fwy na 300 o ffermydd yng ngogledd Cymru o hyd lle mae'n rhaid monitro da byw am ymbelydredd cyn gallu eu symud.'

### Casnewydd

Cynhaliodd Cynghrair Wrth-niwclear De Cymru gyfarfod stryd ynglwn â phwer niwclear.

### Bangor

Mewn cyfarfod cyhoeddus, clywodd y gynulleidfa Dr. Ian Fairlie yn sôn am y gydberthynas rhwng gorsafoedd pwer niwclear a lefelau canser. Canolbwyntiodd ar ymchwil sydd wedi darganfod cysylltiad ystadegol pendant rhwng pwer niwclear a pheryglon canser i blant ifanc.*




### Pont Menai

Bydd gwrandawyr adroddiadau traffig ar Radio Cymru a Radio Wales yn gwybod mor araf yw llif y traffig ar draws Pont Menai rhwng Ynys Môn a'r tir mawr y rhan fwyaf o foreau. Ar fore o'r fath ar y 30ain o Fawrth, canodd gyrwyr eu cyrn mewn cefnogaeth wrth yrru dros y bont heibio i faneri a phosteri dwsinau o gefnogwyr PAWB (Pobl Atal Wylfa B). Dywedodd llefarydd ar ran PAWB: 'Os ydy gorsafoedd pwer niwclear Prydain mor ddiogel ac yn cynhyrchu cymaint o swyddi, pam felly eu lleoli cyn belled ag sy'n bosibl o Lundain? Ni ddylai gwleidyddion gael eu dallu gan ddadleuon economaidd dros adeiladu gorsaf bwer niwclear newydd yn Wylfa, Ynys Môn.'

Rydym yn disgwyl o hyd am esboniad o sut y gellid symud pobl o'r ynys ac ardaloedd cyfagos pe ceid rhybudd niwclear neu pe bai damwain yng ngorsaf bwer niwclear Wylfa.

### Buddiannau Breintiedig

Wrth i'r newyddion ddod yn hysbys am broblemau adweithydd Fukushima, roedd cefnogwyr ynni niwclear yn dweud wrthym am eu peirianneg 'ddi-feth' a'r 'maint bach iawn o ymbelydredd a ollyngwyd'.

Mae gan y diwydiant niwclear yn Japan a gwledydd eraill hanes maith o gelu'r gwirionedd a cham-reolaeth, o Windscale i Three Mile Island i Chernobyl.

## Unwaith Eto

Er gwaethaf ymgyrch egnïol a gwrthwynebiadau cryf, cyhoeddwyd ym mis Mai mai King's Cliffe yn swydd Caergrawnt fyddai'r gladdfa sbwriel gyntaf yn y DU y tu allan i reolaeth uniongyrchol y diwydiant niwclear i dderbyn gwastraff ymbelydrol o orsafoedd niwclear sy'n dadgomisiynu. Nid mater lleol yn unig mo hwn. Bydd llywodraeth San Steffan yn eiddgar i lwytho mwy o wastraff ymbelydrol i mewn i safleoedd claddu sbwriel, ac mae'n hanfodol i ni ddeall oblygiadau llawn claddu gwastraff niwclear a gweithredu nawr, cyn ei bod hi'n rhy hwyr.

Dylai gwastraff niwclear gael ei storio'n ddiogel ar y wyneb yn y safle lle cafodd ei greu, a'u bacio mewn ffurf sy'n caniatáu ei fonitro.

Gweler: www.kingscliffewastewatchers.co.uk

## Neges 'Na i Wylfa' i Gyfranddalwyr Cwmni Niwclear Almaenig

**Cafodd cyfranddalwyr un o'r cwmniau sydd â diddordeb mewn codi gorsaf niwclear newydd yn Wylfa glywed neges glir bod pobl Môn a Gwynedd yn gwrthwynebu unrhyw ehangu niwclear ar yr Ynys.**

Ar Fai 5ed bu Dr Carl Clowes yn annerch cyfranddalwyr Cwmni Niwclear E.ON, yn eu cyfarfod blynyddol yn Essen, yr Almaen. Roedd Dr Clowes yn siarad yn dilyn gwahoddiad gan y mudiad gwrth-niwclear pwerus Almaenig, Urgewald.

Yn sgîl trychineb niwclear Fukushima, mae Canghellor yr Almaen, Angela Merkel, wedi cyhoeddi diwedd pwer niwclear yn yr Almaen. Mae'r Swistir wedi gohirio penderfyniad ar ei rhaglen niwclear, ac mae Japan a'r Eidal wedi dileu eu cynlluniau niwclear.

Yn yr Almaen hefyd, mynychwyd cyfarfod blynyddol cyfranddalwyr cwmni niwclear RWE ar Ebrill 20fed gan Reg Illingworth o Fudiad SANE sy'n gwrthwynebu codi gorsaf niwclear newydd yn Oldbury yn Swydd Gaerloyw. Roedd Mr Illingworth hefyd yn llefaru ar ran Mudiad PAWB yn y cyfarfod hwnnw.

Mae'r cydweithio newydd hwn rhwng PAWB a SANE a mudiad pwerus gwrth-niwclear Urgewald yn yr Almaen yn ddatblygiad cyffrous ac arwyddocaol.

**Ceir adroddiad hwy gan Dr. Carl Clowes o'r Almaen gan CND Cymru neu PAWB (www.stop-wylfa.org).**

## Hinkley

**Ar arfordir Gwlad yr Haf, mae'r cwmni niwclear Ffrengig EDF, sy'n gobeithio adeiladu dau adweithydd niwclear newydd yn Hinkley Point – ddim ond ugain milltir o arfordir de Cymru – wrthi'n iro dwylo'r cymunedau lleol (gan wario ychydig dros £100 miliwn hyd yn hyn, a mwy i ddod).**

Yn eironig, mae EDF newydd ymaelodi fel corfforaeth ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwlad yr Haf. Mae 435 o erwau o dir glas yn cael eu datblygu yn cynnwys llain ar gyfer tai, i ymdopi â'r mewnlifiad a ddisgwylir o adeiladwyr, a ffyrdd newydd ar gyfer y datblygiad niwclear anferth.

Mae Ymgyrch Atal Hinkley yn annog pobl i sgrifennu ar Ysgrifennydd Gwladol San Steffan dros Ynni a Newid Hinsawdd (y Democrat Rhyddfrydol Chris Huhne AS) yn gofyn iddo gadw'i addewid i beidio â noddi'r diwydiant niwclear ac i gynnal ymchwiliad cyhoeddus i'r cyfiawnhad niwclear. Gellir lawrlwytho drafft o lythyr o www.stophinkley.org. Gweler www.sayingnotohinkleycround2.blogspot.com hefyd.

Mae ymgyrchoedd yn mynd yn eu blaen i atal E.ON rhag adeiladu gorsaf buer niwclear newydd yn Oldbury (yr ochr draw i afon Hafren, yn swydd Gaerloyw), gweler www.shepperdineagainstnuclearenergy.blogspot.com ac yn Heysham (Swydd Gaerhirfryn) www.heysham-anti-nuclear-alliance.org yn ogystal ag ar bedwar safle arall yn Lloegr: Bradwell, Hartlepool, Sellafield, a Sizewell.

Cafodd Dungeness ei eithrio o'r rhestr, ac felly hefyd Braystones a Kirksanton yn Cumbria (oherwydd pryderon ynglwn â'r effaith ar fywyd gwyllt a Pharc Cenedlaethol y Llynnoedd yn achos y ddau olaf).




'Radiating Posters' - adolygiad tud.15

## Rhowch Stop Arno Yn Hinkley!

**Gwarchae di-drais ar orsaf bwer niwclear Hinkley Point yng Ngwlad yr Haf - 3 Hydref 2011**

Dewch i'n helpu i gynnal gwarchae di-drais ar fynedfeydd gorsaf bwer niwclear Hinkley Point am ddiwrnod.

Bydd digon o swyddogaethau a gweithgareddau ar gyfer pobl nad ydynt am gael eu restio. Felly gall pawb gwrth-niwclear ddod i ymuno â ni ar y diwrnod i fynegi eu gwrthwynebiad.

Mae CND Cymru yn rhan o'r Gynghrair Atal Niwclear Newydd sy'n trefnu'r digwyddiad yma.

Saif gorsaf bwer niwclear Hinkley Point yr ochr draw i Fôr Hafren, ychydig filltiroedd yn unig o dde-ddwyrain Cymru. Dyma'r cyntaf o wyth safle a gynigiwyd ar gyfer adeiladu niwclear newydd. Fe atalion ni Hinkley C yma o'r blaen, a gallwn wneud hynny eto.

Os metha'r cynlluniau ar gyfer gorsaf bwer niwclear newydd yn Hinkley, mae'n llawer llai tebyg y bydd yr 'adfywiad niwclear' yn parhau.

Wrth i'r drychineb yn Fukushima ddatblygu, mae'r llywodraeth Brydeinig yn parhau â'i chynlluniau i ganiatáu adeiladu gorsafoedd pwer niwclear newydd. Mae fel na bai'r drychineb yn Japan yn digwydd.

Mae peryglon 'bob-dydd' pwer niwclear yn ddigon o reswm dros roi terfyn ar yr holl ddiwydiant. Fodd, mae'n werth cofio i lifogydd a achoswyd gan 'ymchwydd storm' ar y 30ain o Ionawr 1607 ladd mwy na 3,000 o bobl.

Ysgubwyd tai a phentrefi ymaith gan adael rhyw 200 milltir sgwâr o dir o dan ddwr a chafodd da byw eu dinistrio ar hyd glannau Môr Hafren ac aber Afon Hafren. Mae'r fath bethau yn digwydd – a gyda newid hinsawdd, efallai eu bod hyd yn oed yn fwy tebygol o ddigwydd yn y dyfodol.

### heddweithredu

**Rydym yn gobeithio trefnu grwpiau gwarchae o Gymru. Mwy o wybodaeth – i arwyddo'r addewid i flocedio neu i gefnogi: www.stopnewnuclear.org.uk/pledges**
**Taflenni y gellir eu printio allan (Saesneg yn unig hyd yn hyn): www.stopnewnuclear.org.uk/node/10**
**e: reforest@gn.apc.org**

# Bradley Manning a Gweithredu yng Nghymru

**Daeth Bradley Manning, y swyddog cudd-wasanaeth ym myddin yr UD a gyhuddwyd o anfon mynydd o hysbysrwydd at WikiLeaks, i amlygrwydd yn y newyddion ganol mis Mawrth. Erbyn hynny, roedd wedi bod yn y carchar ers deg mis, mewn amodau arswydus.**

Yn ei garchar milwrol, fe'i caethiwyd ar wahân, heb ddim o'r pethau sy'n cadw person yn ddynol ac yn ei iawn bwyll, yn cynnwys, dillad, cwsg, gweithgaredd corfforol, ac eiddo. Diffyg cwmni dynol oedd y gosb waethaf, mae'n debyg. Câi ei gosbi pe bai'n cysgu neu'n ymarfer yn ystod y dydd, a'i gadwyno pe bai'n ymadael â'i gell fechan. Mae'r rhestr yn mynd yn ei blaen.

### Y cysylltiad Cymreig

Yn sydyn, roedd ei gyflwr yn y penawdau newyddion. Ymaflodd yr ymgyrch Brydeinig yn y mater, dan arweiniad unigolion dewr a deallus a phapur newydd y *Guardian*. Cadarnhawyd fod ganddo ddinasyddiaeth ddeuol Brydeinig/Americanaidd am fod ei fam yn Gymraes (buasai yntau'n ddisgybl ysgol uwchradd yn sir Benfro).

O'r adeg yma, digwyddodd llawer o bethau yn gyflym iawn. Yn wir, go brin y cafwyd y fath ymgyrch ffrwydrol erioed o'r blaen. Ymunais â'r ymgyrch yn gynnar, yn ddig iawn fod llanc 23-oed yn cael ei gosbi cyn bod achos llys am y drosedd honedig o ddweud y gwir. Yna, dysgais ei fod yn 'un o'n plant ni', yn un o Sir Benfro, yr un oedran – ac â chysylltiadau cymdeithasol – â 'mhlant fy hun. Cysylltais ag eraill ledled Prydain ar y rhyngrwyd, a dyma gynllunio protest yn Llundain i gydfynd â 29 o rai eraill mewn gwahanol ddinasoedd yn Ewrop ac America, yn cynnwys Cymru. Aeth bws mini a phobol ifanc o Sir Benfro i Lundain lle buont yn canu a siarad yn deimladwy.

Bu Ann Clwyd AS yn daer yn codi'r mater yn y senedd, a bu dadl, ond wnaeth neb gwestiynu'r ffaith fod dinesydd Prydeinig yn cael ei arteithio. Cododd y Swyddfa Dramor hyn ddwywaith gyda'u cymheiriaid yn yr UD, ac arwyddwyd cynnig boreol gan ASau Plaid Cymru a llawer o ASau Cymreig eraill. Anfonodd llywodraeth yr Almaen lythyr, sgrifennodd Jill Evans ASE at y Farwnes Ashton, a chwynodd y CU yn chwerw pan wrthodwyd ymweliad swyddogol iddo i ymchwilio i'r mater. Sgrifennodd holl eglwysi Cymru ar y cyd at lysgennad yr UD. Sgrifennodd mwy na 200 o arbenigwyr y gyfraith at Obama; beirniadodd ei gynghorydd milwrol y sefyllfa a gorfu iddo ymddiswyddo. Yn olaf, casglodd y mudiad rhyngwladol *Avaaz* fwy na hanner miliwn o lofnodion at ddeiseb ar-lein mewn wythnos.




### Cyfrinachau a'r gwirionedd

Yna, ar yr 20fed o Ebrill, fis yn union wedi'r brotest yn Llundain (yr ail fwyaf ar ôl UDA), symudwyd Bradley Manning i garchar cwbl wareiddiedig. Yn awr, gall gymdeithasu'n agored â charcharorion eraill sy'n disgwyl achos llys, defnyddio stafell gyffredin â pheiriant ymarfer, teledu, cawod, treulio dwyawr mewn campfa ac amser yn yr awyr agored bob dydd, mae ganddo eiddo person a hawl i lythyru, gwely normal a rhyddid i gysgu'r nos. Mae hyd yn oed ffenestr yn ei gell. Na, nid nefoedd o bell ffordd, ond mae'r carchar yn ymfalchïo mewn bod yn waraidd (ac mae ganddo system wresogi gwres daear i brofi hynny!)

Felly, yr her bwysig nawr yw'r achos llys. Ym mis Mawrth, fe'u cyhuddwyd o droseddau ychwanegol yn cynnwys 'Cynorthwyo'r Gelyn' sy'n gyfystyr â brad, a all olygu'r gosb eithaf neu garchar am oes heb obaith o ryddhad. Disgwylir i'r achos milwrol gael ei gynnal yn y dirgel.

### Cyfrinachau creulon

Mae'n siwr y byddai'n well gan Bradley Manning ei hun pe canolbwyntid y sylw ar ddatgeliadau WikiLeaks. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys logiau a brys-negeseuon diplomatig o Afghanistan ac Irac. Mae'r wybodaeth yn 'amrwd', hynny yw, ffeithiau moel heb eu dehongli. Yr enwocaf yw'r ffilm a saethwyd o hofrennydd wrth i'w gynnau grymanu pobl sy'n sefyll yn sgwrsio yn un o faestrefi Baghdad, a rhai sy'n cludo'r clwyfedigion ymaith. Mae oerni'r iaith a ddefnyddir yn y sylwebaeth yn datgelu sut mae 'troseddau rhyfel' yn cael eu normaleiddio. Nid yw'r holl ddeunydd yn dangos milwyr mewn goleuni gwael. Ceir mwy na 1,000 o enghreifftiau o arteithio a ddisgrifir yn fanwl gan luoedd y glymblaid yn Irac. Bu eu presenoldeb yn aml yn ddigon i atal arteithio gan heddlu cudd Irac, ac yn gyfrwng cael y dioddefwr i'r ysbyty, ond sicrhaodd 'gorchymyn rhannol' na ddaeth dim byd o'r adroddiadau.

Dengys adroddiadau eraill hyd a lled methiant y cyrch yn Afghanistan. Mae'n bosibl fod brys-negeseuon diplomatig a ragwelai argyfyngau economaidd a phrinder adnoddau, a manylu ar lygredd gwahanol lywodraethau a chytundebau cêl gan gorfforaethau wedi porthi'r gwrthryfeloedd yn yr Aifft a Tunisia. Roedd llawer o'r deunydd yn embaras ond yn ddim byd na ddylai fod yn wybodaeth gyhoeddus a dim a allai roi mantais dactegol i unrhyw elyn milwrol. Dylai milwyr o'r UD fod wedi bod ger bron llys milwrol wedi i WikiLeaks gyhoeddi ffotograffau ohonynt yn hap-lofruddio Iraciaid cyffredin. Mae'r ymgyrchydd o Gymru, Chris May, yn ymchwilio i ffyrdd pellach o ddefnyddio gwybodaeth WikiLeaks.

Weithiau, mae angen unigolyn i bersonoli'r hyn mae'n rhaid i ni ei wneud. Unigolyn felly yw Bradley Manning. Roedd ei athrawon ysgol yng Nghymru yn edmygu ei ddyfnder a'i ddeallusrwydd, a'i ymgais feddwl-agored i ddeall pethau. Gwelai'r rhyngrwyd fel system nerfol a allai uno'r ddynolryw. Wyddon ni ddim beth fydd yn digwydd iddo nesaf, ond mae'r rheini sydd agosaf ato yn credu nad yw wedi ei niweidio'n derfynol, a bod ganddo lawer i'w gynnig i'r byd.

**Vicky Moller**

**heddweithredu**

Croeso i gyfraniadau tuag at gronfa amddiffyn Bradley Manning. Y ffordd orau o anfon sterling yw trwy PayPal. Cysylltwch â Vicky Moller am fanylion.
e: vicky@ecocymru.org t: 01239 820 971
Gweler y cysylltau isod am ddigwyddiadau

**Ffilmiau defnyddiol:**
Crynodeb byr ar ffilm: http://www.youtube.com/user/SaveBradley
Cyfweliad am Bradley (dewiswch 'David House')
http://www.abc.net.au/4corners/special_eds/20110214/leaks
Ffilm 'Collateral Murder', hwy ond gwerthchweil http://www.youtube.com/watch?v=5rXPrfnU3G0

**Gwefannau**
Prydeinig: http://blog.ukfriendsofbradleymanning.org/events/
Cymru: www.bradleymanningcymru.wordpress.com
UDA: www.**bradleymanning**.org

# Dal i ddal ati yn Wrecsam


**Beth ddylai grwp Heddwch a Chyfiawnder a'i aelodau ei wneud pan fo amser ac ynni pawb yn brin, pan nad oes llawer ohonoch, a dim argoel yn y dyfodol agos o ymchwydd yn y mudiad gwrth-ryfel yn eich cylch? Os ydych chi'n gwybod, yna dwedwch wrtha'i, da chi. Yn y cyfamser, dyma be dwi wedi bod yn ei wneud, gyda Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam a thu hwnt . . .**




**Bradley Manning**

Sgrifennais erthyglau ym mis Rhagfyr a mis Ionawr er mwyn hysbysu mwy o bobl am hanes y datguddiwr cyfrinachau WikiLeaks honedig, Bradley Manning, ei wreiddiau Cymreig, a'i artaith yn yr UD. Er ei bod yn broses araf, dechreuodd pobl ddeffro erbyn dechrau mis Chwefror, gyda gwahanol grwpiau yn siarad dros Bradley Manning a gweithredu ar ei ran.

Felly, sefydlais restr ebost i roi gweithredwyr yng Nghymru, Iwerddon, yr Alban a Lloegr mewn cysylltiad â'i gilydd. Mae gennym ail restr nawr hefyd ar gyfer pobl sydd am wybodaeth am brif ddigwyddiadau yn hytrach na'r holl drafodaeth. Croeso i chi ymuno â'r naill neu'r llall: Y brif restr (cyhoeddiadau, trafodaethau, adroddiadau, cysylltau, ac ati): **lists.riseup.net/www/info/wiseupforbradleymanning** Rhestr cyhoeddiadau yn unig: **lists.riseup.net/www/info/wiseupforbradleymanning-announce**




Sefydlais flog hefyd, er meyn adrodd ar rai o'r digwyddiadau sydd wedi bod ym Mhrydain. Gallwch ddarllen y blog yn y fan yma: www.wiseupforbradleymanning.wordpress.com

**Gwylnos dros Irac, Fukushima, Libya a Manning**

Wythmlwyddiant goresgyniad Irac, y drychineb sy'n dal i ddatblygu yn Fukushima, ymyrraeth filwrol y Gorllewin yn Libya a phenwythnos o weithredu dros Bradley Manning. Yn hytrach na dewis un o'r rhain ac anwybyddu'r gweddill, dyma ni'n cynnal gwylnos yn Sgwâr y Frenhines yn Wrecsam ar yr 20fed o Fawrth: 'dros bobl Japan, sy'n wynebu trychineb niwclear ar ben y daeargryn a'r tsunami a ddioddefasant eisoes; dros bobl Irac, ar achlysur wythmlwyddiant goresgyniad trychinebus eu gwlad sydd wedi achosi miliwn o farwolaethau dianghenraid ac wedi gwenwyno'u gwlad am byth ag arfau ymbelydrol; dros bobl Libya, sydd yn awr yn wynebu tynged gyffelyb gydag ymyrraeth filwrol gan y Gorllewin na all ond arwain at fwy o ddioddef a cholli gwaed; dros Bradley Manning, a gyhuddir o ddatgelu troseddau rhyfel yn Irac ac Afghanistan, sy'n wedi ei gaethiwo dan amodau arteithiol ac sy'n wynebu'r gosb eithaf, o bosib, tra bod y rheini a gyflawnodd y troseddau y cyhuddir ef o'u datgelu yn dal â'u traed yn rhydd.'

**Stondin ar achlysur 25 mlwyddiant Chernobyl**

Ar y 26ain o Ebrill, 25 mlwyddiant Chernobyl, euthum â'n baner newydd i Gaer a chynnal stondin wrth y Groes gyda gweithredydd Trident Ploughshares, Joan Meredith, gan sgwrsio gyda phobl a oedd yn mynd heibio ynglwn ag effeithiau deifiol y ddamwain yn Chernobyl, effeithiau tebygol trychineb Fukushima, bygythiad gorsafoedd niwclear ym mhob man, a'r perygl gwenwynig os caiff cynlluniau'r llywodraeth i gladdu gwastraff ymbelydrol mewn tyllau yn y ddaear (er enghraifft, yn ardal gyfagos Cumbria) fynd yn eu blaen.

**Trident? Dim Diolch! Pwer Niwclear? Dim Diolch!**

Rydym wedi parhau â'n stondinau a'n gwylnosau yn erbyn Trident yn Wrecsam, gan ehangu hynny'n neges wrth-niwclear fwy cyffredinol: 'Dwedwch Na i Niwclear'. Cynhaliwyd y ddiweddaraf ar y 13eg o Fai y tu allan i'r coleg chweched dosbarth lleol yn Wrecsam, gan ddenu llawer o ddiddordeb positif gan fyfyrwyr; roedd rhai ohonynt yn eiddgar i ddechrau grwp yn y coleg. Bydd gan y stondinau hyn ddeiseb yn erbyn Trident fel arfer, nid oherwydd bod gennyf lawer o ffydd yn mhwer deiseb ond oherwydd ei bod yn denu pobl at y stondin, gan greu cyfle i sgwrsio ac iddyn nhw fynd â thaflenni gwybodaeth gyda nhw.

Mae Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam wrthi'n chwilio am ffyrdd o gysylltu â grwpiau heddwch a chyfiawnder eraill er mwyn rhannu egni ac adnoddau, rhwydweithio, a chreu 'fforwm' mwy cynrychioladol. Gwyliwch y gofod yma.

**Genny Bove**

**www.wpjf.org.uk (heb ei ddiweddaru, gwaetha'r modd)**
**Ffotograffau diweddaraf: http://tinyurl.com/6exygdk**
**e: wrexhamsaw@yahoo.com**

# Llygedyn Ray o Gyfiawnder

**Ar y 10fed o Ionawr 2009, ymunodd Is-gadeirydd CND Cymru, Ray Davies, Cynghorydd Sir a gweithredydd heddwch ar hyd ei oes, â gwrthdystiad yn Llundain i brotestio yn erbyn ymosodiad treisgar Israel ar Gasa. Yn ystod y gwrthdystiad, ymosodwyd ar Ray a'i fwrw'n anymwybodol gan yr Heddlu Metropolitan, ac o ganlyniad, gwnaeth gwyn yn eu herbyn. Ym mis Mai eleni, dysgodd o'r diwedd ei fod wedi ennill iawndal am yr anafiadau a dderbyniodd y diwrnod hwnnw.**

Mae achosion amlwg diweddar wedi tynnu sylw at y tactegau dadleuon a ddefnyddir i reoli gwrthdystiadau mawr. Cafodd Ian Tomlinson, a oedd yn digwydd cerdded heibio, ei ddal yng nghanol protestiadau G8 mis Ebrill 2009, a bu farw ar ôl ymosodiad arno gan yr heddlu Metropolitan. Ym mis Ebrill, penderfynodd barnwr fod protestwyr hinsawdd heddychlon wedi cael eu cadw yn y ddalfa ar gam pan gawsant eu 'corlannu' – tacteg a ddefnyddiwyd yng ngwrthdystiad Gasa ym mis Ionawr 2009 lle cafodd Ray Davies ei anafu.

### Esgid fach yn gwasgu

Cafodd y rhan o'r orymdaith roedd Ray ynddi ei hatal gan yr heddlu ger Llysgenhadaeth Israel, Dechreuodd rhai o'r gwrthdystwyr daflu hen esgidiau at yr adeilad, ystum o brotest y cawsant ganiatâd ar ei chyfer gan yr heddlu yn gynharach. Gorymatebodd yr heddlu. Cafodd y gorymdeithwyr eu caethiwo gan rengoedd o heddlu heb allu symud ymlaen neu fynd nôl, ac ar ôl awr bron o dyndra cynyddol, ymatebodd yr heddlu drwy fwrw pobl â'u pastynau a'u tariannau. Ceisiodd Ray dawelu'r sefyllfa a mynd i siarad â heddwas a ddwedodd wrtho '*go back with the rest of the scum*'; cafodd ei daro ar ei drwyn ac yna ei ddyrnu'n anymwybodol.

Gosododd Ray gwyn ffurfiol ger bron a daeth dau uwch-swyddog i Gymru i gyfweld ag ef. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad oedd hi'n bosibl dweud pwy oedd y swyddog dan sylw, gan wrthod cais Ray am gyfraniad symbolaidd o £50 i Blant mewn Angen, a chynnig dim ond ymddiheurad llugoer.

### CCTV

Doedd Ray ddim yn fodlon derbyn adroddiad y Comisiwn Cwynion Heddlu Annibynnol; roedd yn cynnwys tystiolaeth gamarweiniol gan yr heddlu a oedd yn gwyrdroi'r ffeithiau. Rhoddodd tystion i ymosodiad yr heddlu dystiolaeth gefnogol a alluogodd Rau i barhau â'i achos. Ar ôl misoedd lawer, cafodd cyfreithwyr Ray, Bhatt Murphy, afael o'r diwedd ar y ffilm CCTV ysgytiol a oedd yn dangos yn glir y ddyrnod gan uwch-swyddog a fwriodd Ray i'r llawr.

Gyda'r dystiolaeth newydd yma, roedd yn rhaid i'r heddwas dan sylw gyfaddef ei fod wedi ymosod ar Ray (ar ôl dweud yn gynharach fod ffotograffydd wedi baglu a syrthio arno). Cyfaddefodd nad oedd Ray wedi chwarae unrhyw ran yn y trais, ond dywedodd y credai mai dim ond tri dewis oedd ganddo: ei fwrw â tharian (gan frifo trwyn Ray), ei fwrw â'i bastwn, neu roi dyrnod iddo. Yn ei ddatganiad, i geisio cyfiawnhau'r ymosodiad, dywedodd y credai mai 60 oed oedd Ray, nid 79, fel pe bai hi'n iawn rhoi dyrnod i ddyn 60 oed â'i trawodd yn anymwybodol ac a allai fod wedi ei ladd.

Meddai Ray, 'Gobeithio'n wir y bydd trasiedi Ian Tomlinson a'r dyfarniad o blaid y brotest Hinsawdd, ynghyd â'm hachos i, yn achosi i'r heddlu newid eu harfer. Dylid rhoi terfyn llwyr ar gorlannu a dylai'r heddlu arddangos eu rhifau adnabod. Fe fydd hynny'n mynd beth o'r ffordd at adfer hyder y cyhoedd yn yr heddlu fel y gallwn ni, y cyhoedd, weithredu'r hawliau democrataidd y brwydrwyd mor galed amdanynt, a gwrthdystio'n heddychlon heb ofni trais gormesol.'

Diolch i bawb ar y gwrthdystiad a fu'n ddigon dewr i dystio ar ei ran; ac i Bhatt Murphy am ymladd yr achos mor ddygn, gan helpu Ray i ennill cyfiawnder. Defnyddir yr iawndal i helpu elusennau Palesteinaidd.

### Parti Arall Ray

Ar yr 20fed o Fai, cyflwynodd Dirprwy Arweinydd y Blaid Lafur, Harriet Harman AS, wobr i Ray i gydnabod 'chwe degawd o



wasanaeth i'r Blaid Lafur'. Bu'n aelod o'r Blaid Lafur ers 61 o flynyddoedd ac yn gynghorydd ers 1963.

Cydnabu Ms Harman na fu ar Ray erioed ofn protestio a siarad yn erbyn gweithgareddau ei blaid os nad oedd yn cytuno â nhw. Mae wedi cael ei garcharu am rai o'i brotestiadau di-drais a chafodd grafiad gan un o fwledi Gwrchodlu Israel pan oedd yno'n cefnogi gwersyll ffoaduriaid Palesteinaidd. Galwodd ef yn 'benboethyn' ymroddedig a dywedodd wrth y rhai oedd yn bresennol: 'Mae sôn am ei weithgareddau, ei egni a'i ymgyrchu aruthrol wedi cyrraedd bob cam i Lundain.'

**'Radiating Posters'** - adolygiad tud.15



# Cymru â'r Cysylltiad Palesteinaidd Ymgyrch Foicotio

**Pan lansiodd Palestiniaid ymgyrch BDS (Boicot, Dihatru a Sancsiynau) yn 2005, a ysbrydolwyd gan y boicot yn erbyn Apartheid De Affrica, y gobaith oedd y byddai boicot cyffredinol – economaidd, academaidd, diwylliannol – yn annog Israel i ufuddhau i'r gyfraith ryngwladol.**

Ers hynny mae ymgyrchwyr yng Nghymru wedi canolbwyntio ar foicot economaidd, gan gysylltu â rheolwyr archfarchnadoedd, egluro BDS i siopwyr ac annog cynghorau Cymru i osgoi cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer trefedigaethau Israel ym Mhalesteina. Yn sgîl ymgyrchu dwys, gollyngwyd un cwmni o'r fath, Veolia, gan Gyngor Abertawe fis Mehefin diwethaf a gobeithio y gwna Cyngor Caerffili yr un fath cyn hir.

Mae Israel yn elwa'n anghyfreithlon ar gonsesiynau masnach yr UE trwy 'gam-labelu' rhai nwyddau. Rydym yn lobïo ASEau Cymru i wrthwynebu cam gan yr UE i ddad-rewi protocol masnach a rewyd y llynedd wedi i filwyr Israel ladd naw o deithwyr ar fwrdd y *Mavi Marmara* a oedd yn cludo cymorth dyngarol i Gasa.

Mae Ymgyrch Cefnogi Palesteina (YCP) Aberystwyth yn galw ar Safonau Masnachu i weithredu ar ôl dod o hyd i gynnyrch 'Ahava', a gynhyrchir ar dir a ddygwyd oddi wrth y Palestiniaid, yn cael ei werthu'n anghyfreithlon fel nwydd a 'Wnaed yn Israel' mewn salon harddwch leol.

**Awdurdodaeth Hollgyffredinol**

Ym mis Mai, sicrhaodd David Cameron Brif Weinidog Israel y byddai deddfwriaeth a fyddai'n plesio Israel yn mynd drwy'r senedd cyn hir. Cymal ar Awdurdodaeth Hollgyffredinol (*Universal Jurisdiction*) yw hyn, a wthiwyd i mewn i Fesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol er budd i Israel yn unig.

Gofynnodd llywodraeth Israel am sicrwydd na allai'r embaras a ddioddefodd yn 2009 pan gyhoeddodd llys ynadon Westminster warant i restio cyn-Weinidog Tramor Israel, Tzipi Livni, byth ddigwydd eto. Cyhuddir Livni o droseddau rhyfel am ei rhan yn *Operation Cast Lead*, y cyrch tair-wythnos ar Gasa a laddodd 1400 o sifiliaid, llawer ohonynt yn blant, ac anafu miloedd eraill. Yn y pen draw, penderfynodd Livni beidio â theithio. Byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn rhoi pwerau i gyhoeddi gwarant i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn unig, a dim ond pan fyddai'n credu fod posibilrwydd o erlyniad llwyddiannus. Ofn ymgyrchwyr yw mai 'byth' y bydd hynny'n ei olygu.

Yn Nhw'r Cyffredin, cafwyd tro pedol arall gan ASau Democrataidd Rhyddfrydol a oedd wedi gwrthwynebu hyn yn gryf cyn etholiad 2010, ac er gwaethaf holl ymdrechion ymgyrchwyr, dim ond 37 AS (7 o Gymru) a gefnogodd welliant Ann Clwyd yn galw am ddileu'r cymal. Anfonodd Grwp Gweithredu ar Balesteina Cymru gannoedd o lythyron yn gofyn i arglwyddi wrthwynebu'r ddeddfwriaeth hon yn Nhw'r Arglwyddi. Ar adeg sgrifennu'r darn yma, dim ond y Farwnes Tonge a'r Farwnes D'Souza oedd yn dadlau dros ollwng y cymal.

**Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol**

Er y gwyddom na ddatganolwyd polisi tramor i'r Cynulliad, gofynnwyd i ymgeisyddion a fyddent yn cefnogi cydnabyddiaeth gan Brydain o wladwriaeth Balesteinaidd ar sail y ffiniau cyn-1967. Atebodd nifer yn gadarnhaol. Cafodd cynigion traws-bleidiol ar bynciau cyffelyb eu rhoi ger bron yn y gorffennol, a byddwn yn holi'r ACau newydd ynglwn â hyn eto.

**Cywirdeb a Thegwch yn y Cyfryngau**

Gan boeni am y ffordd mae'r cyfryngau'n camhysbysu pobl am y 'gwrthdaro', ac arwain ar y cyhoedd i weld y sefyllfa ym Mhalesteina-Israel mewn modd arwynebol, mae grwpiau Cymru yn cadw llygad arnynt a'u beirniadu am eu tuedd, yn rhy aml o lawer, o blaid Israel. Dygodd ein cwynion ffrwyth prin pan ddyfarnodd Ymddiriedolaeth y BBC ym mis Ebrill fod rhaglen Panorama, *Death in the Med*, wedi torri canllawiau'r BBC ei hun ar gywirdeb a thegwch diduedd ar dri achlysur.

**Dronau Aberporth**

Mae grwpiau YCP yng Nghymru wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch i atal cynhyrchu dronau gwyliadwraeth Watchkeeper yn Aberporth, menter ar y cyd rhwng Thales UK a chwmni Elbit Systems yn Israel. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd yn rhentu dronau Israelaidd i'w defnyddio yn Afghanistan.

**Gefeillio Anffurfiol gyda Threfi Palesteinaidd**

Mae grwp yn Llanidloes ac YCP Aberystwyth wedi creu cysylltiadau cyfeillgarwch, y naill gydag As-Sawiya a'r llall gyda phentref amaethu parhaol Marda, ar y Lan Orllewinol ill dau. Mae rhagor o efeillio Cymru-Palesteina ar y gweill hefyd.

**Elizabeth Morley**

**heddweithredu**

Dywedwch wrth archfarchnadoedd pam nad ydych yn hapus eu bod yn gwerthu nwyddau o Israel.

Sticeri, taflenni, cardiau addewid – YCP: www.palestinecampaign.org
Mae rhai taflenni ar gael yn y Gymraeg: eimorley@rocketmail.com
Eich AS: edrychwch ar http://www.parliament.uk/edm, ac os nad yw'ch AS wedi arwyddo'r cynigion boreol cyfredol o blaid Palesteina, gofynwch iddo/iddi wneud
Gwylio'r Cyfryngau: cwynwch os gwelwch duedd neu ffeithiau anghywir

**Cysylltiadau defnyddiol eraill:**
Aberporth – www.bepj.org.uk a www.dronewarsuk.wordpress.com
Rhwydwaith gefeillio Prydain-Palesteina – www.twinningwithpalestine.net




'Radiating Posters' - adolygiad tud.15

# Mwy na Barddoniaeth – Mwy na Heddwch

**Ym marn rhai, Waldo Williams (1904-71) oedd bardd Cymraeg mwya'r ugeinfed ganrif – a hynny ar sail ei unig gasgliad o gerddi, *Dail Pren* (1956). Mae'n adnabyddus hefyd fel Crynwr, heddychwr, gwrth-imperialydd a 'nawddsant y mudiad iaith'**

**Cafodd Waldo Williams ei eni yn Hwlffordd, a'r Saesneg oedd iaith yr aelwyd, Nid tan i'r teulu symud i Fynachlog-ddu pan oedd yn saith mlwydd oed y dysgodd Gymraeg. Roedd ei rieni'n gapelwyr selog, a oedd hefyd dan ddylanwad mudiadau radicalaidd y cyfnod. Fel heddychwyr, gwrthwynebent y Rhyfel Byd Cyntaf yn chwyrn, a magwyd Waldo mewn awyrgylch a fyddai'n rhoi safbwynt unigryw iddo'n nes ymlaen yn ei fywyd, yn arwain at anufudd-dod sifil a charchar am ei safiad yn erbyn rhyfel Korea ym 1950.**

Aeth ymlaen o ysgol Ramadeg Arberth i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth i astudio Saesneg ac yna yn ôl i'w hoff Sir Benfro i fod yn athro.

Roedd yn wrthwynebydd cydwybodol yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ac mae arswyd rhyfel yn britho ei gerddi yn y cyfnod hwn. Er iddo sefyll dros Blaid Cymru yn Etholiad Cyffredinol 1959, nid oedd yn wleidydd plaid wrth reddf. Taenodd ei efengyl fel cenedlaetholwr trwy ei farddoniaeth ac fe gafodd ddylanwad gwleidyddol sylweddol ar ymgyrchwyr y genhedlaeth iau.

Mae'n siwr mai Waldo yw'r unig fardd Cymraeg erioed i gael ei ddyfynnu gan Archesgob Caergaint. Yn ei bregeth mewn cynhadledd ryngwladol yn Efrog Newydd ym mis Ebrill, 2003, wrth geisio diffinio beth yw bywyd, dywedodd Rowan Williams bod y bardd Cymraeg, Waldo Williams, yn agos iawn ati pan sgrifennodd yn ei gerdd 'Pa beth yw Dyn?' mai 'Cael neuadd fawr/ Rhwng cyfyng furiau' ydoedd.

Yng nghyfraniad gwych Alan Llwyd i gyfres ddwyieithog Barddas, *Stori Waldo Williams, Bardd Heddwch*, caiff Waldo ei ddisgrifio a'i ddatgelu mewn ffordd na fu ar gael erioed o'r blaen i Gymry di-Gymraeg a'r byd ehangach. Trafodir cerddi Waldo yng ngyd-destun ei fywyd – ac fel disgleirio goleuni i mewn i le bendigedig na fu modd i bobl ddi-Gymraeg ymweld ag ef erioed o'r blaen – mae'r cwbl yn y ddwy iaith.

Yn ei ragymadrodd, mae'n egluro mai heddychwr oedd yn fardd yn hytrach na bardd oedd yn heddychwr oedd Waldo Williams: 'heddychwr a gwrthwynebydd cydwybodol a ysgrifennai farddoniaeth er mwyn mynegi ei ddaliadau ac er mwyn hyrwyddo'i achos. Nid rhywbeth i'w broffesu yn rhwydd ddiymdrech oedd heddychiaeth iddo, ond rhywbeth i'w weithredu.'

'Yn ystod oes o dotalitariaeth credai mewn unigoliaeth a chredai mewn heddwch yn ystod canrif o ryfeloedd. Mewn cyfnod o elyniaeth ac erledigaeth credai mewn brawdoliaeth; ar adegau o anobaith cynigiai obaith. Ac uwchlaw popeth, credai mai eiddo i'r unigolyn oedd ei enaid a'i gydwybod ei hun, nid eiddo i'r wladwriaeth. Credai Waldo fod rhyfeloedd yn bosibl yn unig oherwydd bod gwladwriaethau a llywodraethau, trwy orfodaeth gyfreithiol a gwleidyddol, yn meddu ar yr hawl i feddiannu a rheoli enaid yr unigolyn, a thrwy hynny amddifadu'r unigolyn o ryddid ewyllys a'i hawliau fel unigolyn. Bardd rhyddid yr unigolyn oedd Waldo Williams. Roedd hefyd yn Gristion, Crynwr, sosialydd a chenedlaetholwr."

Y tu hwnt i gyfrol ardderchog a goleuedig Mr Llwyd, lle mae'n defnyddio bywyd Waldo ochr yn ochr â'i gerddi er mwyn i'r naill egluro'r llall, mae'n amlwg bod Waldo, un â'i wreiddiau'n ddwfn yng nghefn gwlad gorllewin Cymru, yn feddyliwr dwfn ac yn ddyn cymhleth. Doedd e ddim yn chwaraewr rhyngwladol, yn wleidydd plaid nac yn selèb yn ystyr yr 21ain ganrif; roedd – ac y mae'r – dyn hwn yn bwysicach na hynny. Pwy bynnag y bôm, mae ein hegwyddorion a sut y dewiswn fyw, sut y ceisiwn ddylanwadu ar agweddau tuag at heddwch, cyfiawnder cymdeithasol a rhyfel yn bwysig, a pheryg o'r mwyaf fyddai anghofio hynny wrth i ni fyw ein bywydau beunyddiol.

Ymgyrchwyr heddwch heddiw yw brodyr a chwiorydd Waldo. Byddai wedi bod gyda ni




yn ein gwaith, ac yn deall bod y dulliau a ddefnyddiwn a'r ffordd y gweithiwn tuag at ein nod bob amser yn effeithio ar y canlyniad.

Fel y sgrifennodd:

*'Fy Nghymru, a bro brawdoliaeth, fy nghri,*
*fy nghrefydd,*
*unig falm i fyd, ei chenhadaeth, ei her,*
*perl yr anfeidrol awr yn wystl gan amser,*
*gobaith yr yrfa faith ar y drofa fer.'*

**Jill Gough**

**Alan Llwyd, *Stori Waldo Williams, Bardd Heddwch/The Story of Waldo Williams, Poet of Peace***
**Cyhoeddiadau Barddas,**
**ISBN 978-1-906396-30-5, £7.95.**




**'Radiating Posters'** - adolygiad tud.15

## Countdown to Zero

**Mae gan naw o wledydd arfau niwclear, gydag eraill yn rhuthro i ymuno â nhw. Mae'r byd mewn cydbwysedd bregus y gellid ei chwalu gan weithred frawychol, methiant diplomatig, neu ddamwain, yn syml iawn.**

Mae'r ffilm *Countdown to Zero* a sgrifennwyd ac a gyfarwyddwyd gan Lucy Walker, yn olrhain hanes y bom atomig o'r cychwyn cyntaf tan y sefyllfa gyfredol mewn materion rhyngwladol. Mae'n creu achos pwerus o blaid diarfogi niwclear byd-eang.

Mae dosbarthydd y ffilm, Dogwoof, wedi galw am 'Ddiwrnod Mynnu *Zero*' ledled gwledydd Prydain ac Iwerddon ar y dyddiad lansio, yr 21ain o Fehefin. Ar ôl i'r ffilm gael ei dangos, bydd canolfannau 'Dangosiad Llysgennad' yn cysylltu'n fyw â phanel trafod o fri, yn cynnwys y Frenhines Noor, cyn-weithredydd y CIA, Valerie Plame Wilson, y gwleidydd Margaret Becket, a'r cynhyrchydd ffilmiau Lawrence Bender. Anogir cynulleidfaoedd i ymuno yn y drafodaeth a thecstio cwestiynau.

**Yng Nghymru, gallwch weld *Countdown to Zero* yn:**
Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth
Sinema'r Scala ym Mhrestatyn
Apollo Port Talbot
Prifysgol Casnewydd – Dangosiad Llysgennad
Cam dros Glawdd Offa: Kinokulture Croresoswallt – Dangosiad Llysgennad

**Dim dangosiad yn y cyffiniau?**
Mae Rhaglen Llysgenhadon Dogwoof yn galluogi ardaloedd lleol i gymryd rhan yn Niwrnod Mynnu *Zero* trwy gynnal eu dangosiad eu hunain a chynnig y sesiwn drafod fyw i'w cynulleidfaoedd. Does dim tâl arddangos o flaen llaw na lleiafswm tocynnau mae'n rhaid eu gwerthu, dim ond rhaniad teg ar bob tocyn a werthir rhwng y Llysgennad a Dogwoof. Po fwyaf o docynnau a werthir, y mwyaf oll fydd cyfran y Llysgennad – felly gallwch godi arian i chi'ch hun neu'r gymuned a mynd yn entrepreneur ffilmiau o'r iawn ryw.
Am fwy o wybodaeth am y ffilm, yr ymgyrch a sut i drefnu dangosiad Llysgennad, ymwelwch â www.countdowntozerofilm.com

Oddi wrth wneuthurwyr *An Inconvenient Truth*, ffilm ynglwn â'n bygythiad niwclear.
'Y ffilm arswyd uwchlaw pob ffilm arswyd arall' - Peter Bradshaw, *Guardian*

'Heb os, y ffilm bwysicaf a welwch chi eleni' – James Mottram, *Moviescope*

## A fydd eich Plant yn Etifeddu'r Ddaear?

**Detholiad eang o 603 o hen bosteri rhyngwladol clasurol o'r deugain mlynedd diwethaf yn hanes y mudiad gwrth-niwclear yw *Radiating Posters*, llyfr newydd a sgrifennwyd ac a grewyd gan Dirk Bannick. Mae'r llyfr yn ysbrydoliaeth, yn ogystal â bod yn wledd i'r llygaid, y meddwl a'r cof. Cewch rai o'r posteri ar dudalennau'r rhifyn hwn o *Heddwch*.**

O ddechrau'r 1970au, bu mudiadau poblogaidd wrthi'n trefnu protestiadau. Y poster oedd un o amryw ffyrdd o wneud pobl yn ymwybodol o'r achosion. Nid llyfr *ynglwn ag* ynni niwclear mo *Radiating Posters*, er y rhoddir rhywfaint o wybodaeth gefndir er mwyn i bobl ddeall cynnwys y posteri yn well.




Gwerthwyd ynni niwclear i'r cyhoedd yn y 1950au fel adnodd diderfyn a oedd 'yn rhy rad i'w fesur'. Roedd yn mynd i newid y byd er gwell. Erbyn hyn, gwyddom mai addewidion gwag oedd y rhain, a bod pwer niwclear wedi gwneud y byd yn fwy peryglus.

O'r dyddiau cynnar, canolbwyntiodd ymgyrchwyr gwrth-niwclear ar ddulliau cynhyrchu ynni amgen – er mai dim ond ychydig a wnaeth y pwynt y gallai'r ffantasi o ynni di-ben-draw ein gwneud ni oll yn ansensitif i amhosibilrwydd twf economaidd diderfyn.

Mae *Radiating Posters* yn cwmpasu'r holl wahanol ymgyrchoedd gwrth-niwclear, o gloddio am wraniwm, cludo defnyddiau ymbelydrol, cynhyrchu trydan, adweithyddion bridio cyflym, ailbrosesu a gwastraff. Cynhwysir damweiniau Harrisburg, y Mont Louis a Chernobyl yn ogystal â phosteri sy'n tanlinellu peryglon radio-niwclidiau eu hunain. Mae'n gysur, mewn ffordd, i weld bod eraill ar yr un pryd, ym mhedwar ban y byd, wedi bod wrthi'n galw sylw at beryglon ynni niwclear yn union fel y buom ni yng Nghymru.

Mae'r llyfr yn cwestiynu pa mor effeithiol yw posteri gwleidyddol. Rydym oll yn eu defnyddio, ond a ydym yn eu 'gweld', go iawn? A ydy'r poster yn apelio at y cadwedig neu a ydyw'n achosi tröedigaeth? Efallai y bydd rhai ohonom yn deall ei bod hi'n cymryd amser i newid meddyliau, ac anaml y bydd yn digwydd mewn fflach sydyn. Mae'r poster yn hysbysu ac yn ychwanegu at syniadau a theimladau sydd eisoes yn bwrw gwreiddiau. Mae'n aml yn gweithio'n weledol lle byddai geiriau'n methu'r nod. Mae ateb Dirk Bannik yn syml. Meddai, 'Os na allwch chi newid meddyliau gyda graffeg, yna mae asiantaethau hysbysebu'n gwastraffu miliynau. Mae'n apelio at y cadwedig am ei fod yn ategu eu barn nhw am y byd.'

Cyhoeddwyd y gyfrol hon yn union cyn trychineb Fukushima. Roedd yn amserol. Erbyn diwedd Mehefin roedd wyth gwlad Undeb Ewropeaidd (Awstria, Groeg, Iwerddon, Latfia, Liechtenstein, Lwcsembwrg, Malta a Phortwgal) wedi creu bloc gwrth-niwclear newydd o fewn yr UE.
Dylem deimlo'n bositif ond nid yn fodlon – efallai ei bod hi'n bryd cael poster newydd.

**Jill Gough**

**Radiating Posters**
**A Collection of Posters from the Global Movement against Nuclear Power**
**Sefydliad WISE/LAKA, 2011,**
**ISBN 978-94-90762-02-5**
**£16 yn cynnwys cludiant, oddi wrth CND Cymru (gweler tud. 2)**
**Os hoffai'ch grwp brynu nifer a/neu werthu rhai, cysylltwch â WISE (World Information Service on Energy)**
**e: wiseamster@antenna.nl**

### heddweithredu

Dywedodd Dirk Bannick, wrth iddo chwilio am bosteri, y daeth hi'n glir nad oedd llawer o grwpiau yn casglu posteri, hyd yn oed y rhai roedden nhw wedi eu cynhyrchu eu hunain weithiau. Er nad yw'n syndod gyda mudiad a weithredodd erioed heb lawer o strwythur a threfn benodol, swyddfeydd mawr na hierarchaeth gref, mae'n drueni y collwyd peth o'n treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, yn enwedig ar lefel leol (ac ar lefel leol mae'r mudiad gwrth-niwclear wedi ymdrefnu'n bennaf, heddiw ac erioed).

Da chi, helpwch ni i gasglu cofnod o ddeunydd Gwrth-niwclear Cymreig. Os oes gennych unrhyw bosteri, taflenni neu fathodynnau y gallem eu cofnodi neu eu casglu ynghyd i'w rhoi yn Archif Wleidyddol y Llyfrgell Genedlaethol, cysylltwch ag CND Cymru.

Rydym bob amser yn chwilio am syniadau a graffeg ar gyfer ein deunyddiau ymgyrchu – peidiwch ag ofni cysylltu â ni os gallwch helpu!

**Nos Fawrth, 21 mis Mehefin**
**Ffilm: 'Countdown to Zero'**
Am fygythiad arfau niwcliar. gweler tud.15

**Dydd Iau, 30 mis Mehefin – Dydd Gwener, 1 mis Gorffennaf**
**CAERDYDD: Prifysgol Morgannwg, ar gampws yr ATRiuM**
**Cynhadledd: 'Comiwnyddiaethau Lleol'**
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Lois Thomas**
**e:** lthomas3@glam.ac.uk
**Dr Norry LaPorte**
**e: nlaporte@glam.ac.uk**
**Er mwyn cofrestru ar-lein:**
**w:www.history-glamorgan.net/communisms/form.html**

**Dydd Iau, 30 mis Mehefin**
**CAERDYDD, Cerflun Aneurin Bevan, Stryd y Frenhines (pen y castell)**
***Gwrthdystiad UNCUT***
Efallai'r cam ymlaen pwysicaf yn y frwydr fawr yn erbyn y toriadau dianghenraid yn y sector gyhoeddus a phreifateiddio. Dewch â baneri, cyrn siarad, offerynnau cerdd a ffrindiau.
e: sebastian@fyeg.org
w:www.ukuncut.org.uk/actions/610
f: www.facebook.com/event.php?eid=101466786612298

**Dydd Sadwrn, 2 mis Gorffennaf, 09.00 - 16.00**
**CAERDYDD, Ysgol Reoli Caerdydd yn Llandaf, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC)**
***Cynhadledd:***
***'Cymru – Cenedl Gyd-Weithredol'***
Trefnwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig – mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Gydweithredol.
Rhagor o fanylion:
w: www.iwa.org.uk/en/events/view/130
Mae'r digwyddiad hwn am ddim, ffoniwch os gwelwch yn dda er mwyn archebu lle:
e: emmabrennan@iwa.org.uk
t: 029 2066 0820

**Nos Sul, 3 mis Gorffennaf, 7.30yh,**
**PORTHMADOG, Capel Salem**
**Perfformiad: 'Myfi Yw'**
Cwmni Theatr Meirion yn cyflwyno'r oratorio Cymraeg *Myfi Yw* (o Efengyl Sant Ioan) gan Derec Williams, Linda Gittins a Penri Roberts. Tocynnau: £5, ar gael o Siop Eifionydd
t: 01766 514045.

**Dydd Iau, 7 mis Gorffennaf, 14.00**
**Llys Ynadon CAERDYDD**
Cefnogaeth i brotestwyr S4C
Dewch i ddangos eich cefnogaeth i Jamie Bevan a Heledd Melangell Williams yn eu hachos llys, yn dilyn eu gweithredu uniongyrchol yn erbyn y toriadau sy'n peryglu dyfodol yr unig sianel deledu Gymraeg ei iaith yn y byd.
Bu i'r ddau dorri i mewn i swyddfa etholaethol AS Gogledd Caerdydd Jonathan Evans, a phaentio slogan ar y wal fel rhan o'r protest yn erbyn cynlluniau'r llywodraeth i dorri 94% o grant y llywodraeth i'r sianel.
f: www.facebook.com/event.php?eid=143811232355880

**Dydd Gwener 8 mis Gorffennaf 12.00 – Dydd Llun, 11 mis Gorffennaf 12.00**
**ALDERMASTON: Dingly Dell, y tu allan i AWE Aldermaston (gyferbyn ag Ystâd Ddiwydiannol Young's) yn ymyl Tadley, Berkshire;**
***Gwersyll Heddwch Menywod Aldermaston: Gwersyll Penwythnos Hir***
Penwythnos hir o drafodaethau a gweithgareddau di-drais i fenywod yn unig.
e: info@aldermaston.net
w: http://www.aldermaston.net
m: 07969 739 812

**Dydd Iau, 28 mis Gorffennaf – Dydd Llun 1 mis Awst**
**SIR AMWYTHIG**
**Gwersyll Haf "Peace News"**
www.peacenewscamp.info/2011/about-the-peace-news-summer-camp/

**Dydd Sadwrn, 30 mis Gorffennaf – Dydd Sadwrn, 6 mis Awst,**
**WRECSAM: yr Eisteddfod Genedlaethol**
***Piciwch draw i'r Babell Heddwch.***
Bydd CND Cymru yn ein Pabell Heddwch yn yr Eisteddfod Genedlaethol unwaith eto. Fe'i cynhelir yn Wrecsam eleni. Cefnogwch ni, da chi, naill ai trwy gynnig help gyda'r stondin neu trwy alw heibio i weld yr arddangosfa, prynu rhywbeth bach a dweud 'shw' mae'.
Cysylltwch â Kate : coney@gn.apc.org

**Nos Lun, 1 mis Awst:** Gorsaf Ganolog, Wrecsam: Noson o gomedi a dychan gwleidyddol yn y Gymraeg.
Trefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg.
w: http://cymdeithas.org/

**Nos Fawrth, 2 mis Awst:** Gorsaf Ganolog, Wrecsam: Gig i lansio siarter "Tynged yr Iaith – Dyfodol ein Cymunedau" gyda Bryn Fôn a'r band, Al Lewis, Daniel Lloyd ac eraill.
Trefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg.
w: http://cymdeithas.org/

**Nos Fercher, 3 mis Awst:** Gorsaf Ganolog, Wrecsam: Gig i ddatgan mai 2012 yw'r flwyddyn y byddwn ni'n dathlu 50 mlynedd ers sefydlu Cymdeithas yr Iaith. Bydd y DJ profiadol Mici Plwm yn cyflwyno 50 mlynedd o ymgyrchu a cherddoriaeth roc trwy gyfrwng sain a ffilm. Bydd y gwesteion arbennig yn cynnwys Maffia Mr Huws a Heather Jones.
Trefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg.
w: http://cymdeithas.org/

**Nos Iau, 4 mis Awst:** Gorsaf Ganolog, Wrecsam: Gig yn erbyn toriadau'r Llywodraeth gyda Llwybr Llaethog, Dai Cefn, Crash Disgo ac eraill.Trefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg.
w: http://cymdeithas.org/

**Nos Wener, 5 mis Awst:** Gorsaf Ganolog, Wrecsam: Gig dros heddwch rhyngwladol gyda Meic Stevens a'r band. Bydd munud o dawelwch ganol nos, i gofio Diwrnod Hiroshima.
Trefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg.
w: http://cymdeithas.org/

**Dydd Sadwrn, 6 mis Awst:** Pabell Cytûn, Maes yr Eisteddfod Genedlaethol: Gwasanaeth a gorymdaith i gofio gollwng y bom atomig ar Hiroshima.

**Dydd Sul, 14 mis Awst 13.00 - 17.00**
**ABERTEIFI: Glan Helyg, Llechryd, SA43 2NJ**
***'Amnest-te', Garddwest ac Oriel***
Grwp Amnest Rhyngwladol Aberteifi a Gogledd Sir Benfro: **'Amnest-te'**
Te Prynhawn: te a chacennau yn y Stiwdio, Arwerthiant Planhigion. Taith Gerdded yn y Coed (ambarelau ar gael os fydd hi'n wlyb!)
Tâl mynediad £2.50, plant am ddim.
Yr elw i gyd i Amnest Rhyngwladol.
e: celiaandgraham@gmail.com

**Dydd Sadwrn 17 Medi 2-6yp**
**ABERDAUGLEDDAU Tw Cwrdd y Crynwyr, Heol y Priordy**
***Te Parti Abial***
Digwyddiad wedi'i seilio ar y bwyd, y dillad a'r digwyddiadau a ddisgrifir gan Abial Folger, Crynwr yn Aberdaugleddau a ysgrifennodd ddyddiadur rhwng 1806 a 1811.
Gan gynnwys y grwp caneuon môr 'The Vagrants Crew' yn diddanu.
Archebwch o flaen llaw, os gwelwch yn dda, drwy ffonio: 01834 831 121

**Dydd Sadwrn, 8 mis Hydref – Dydd Sul, 9 mis Hydref, 10.00 - 17.00**
**LLUNDAIN**
**Cynhadledd y Cyfryngau Gwrthryfelgar** (gweler tud.6)
www.gn.apc.org/calendar/radical-media-conference

**Nos Sadwrn, 15 mis Hydref, 20.00 - 24.00, y drysau'n agor am 19.00**
**CILGERRAN: Neuadd y Dderwen, Plas Rhos-y-Gilwen,**
***Noson er budd Amnest Rhyngwladol***
Grwp Amnest Rhyngwladol Aberteifi a Gogledd Sir Benfro -"Making a Song and Dance of It", yn Neuadd y Dderwen, gyda'r Merlinaires, Amanda Painting a Glen Peters. Dewch yn gynnar er mwyn cael gwersi "rumba" hwyliog, anffurfiol ac am ddim wrth Amy a Scott – cyrhaeddon nhw rownd derfynol pencampwriaeth dawnsio neuadd y DU. Gorffennwch y noson yn dawnsio i gyfeiliant y Jive Machine.
e: celiaandgraham@gmail.com
Tocynnau o flaen llaw: 01559 370 991
w: www.rhosygilwen.co.uk